Margaret Thomas
Capel Dewi Ffosa
Llandysul.

YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MAI, 1869.

PREGETH GAN D. L. EVANS.

"Ond yr ydym ni yn deisyf cael clywed genyt ti beth yr yd wyt yn ei synied; oblegid am y sect hon mai yn hysbys i ni fod ym mhob man yn dywedyd yn ei herbyn."—ACT. XXVIII. 22.

PAN yn ysgrifenu ei lythyr at y Crist'nogion yn Rhufain, ac yn hysbysu iddynt ei ddymuniad i ymweled â hwynt, ychydig feddyliodd yr Apostol, debygaf, nad oedd ym mwriad rhagluniaeth iddo gael y pleser o'u gweled hyd nes y gorfyddai arno fyned yno yn garcharor i appelio at Caesar yn erbyn camgyhuddiad ei gydwladwyr.

Ym mhen tri diwrnod wedi ei ddyfod i'r brif ddinas, dywed yr hanes iddo ystyried yn gymhwys alw y'nghyd ato y rhai oedd benaf o'r Iuddewon, oblegid gan mai yn garcharor y daeth yno, tebyg yw y meddyliai y gallasent dybied yn ddrwg am dano a niweidio ei achos yn llys yr ymerawdwr, yn enwedig os y clywent mai y cyhuddiad yn ei erbyn oedd anog ei genedl i anghredu defodau a thraddodiadau eu crefydd. Am hyny, er mwyn symud oddiar eu meddyliau unrhyw ragfarn o'r fath, dywedodd wrthynt, pa beth bynag oeddynt wedi glywed am dano, nad oedd yn euog o ddywedyd dim, nac yn erbyn y bobl, na defodau y tadau, ac mai barn y brenin Agrippa a Ffestus y Rhaglaw oedd, nad yoedd wedi gwneyd dim yn haeddu angeu neu rwymau, ac y gallesid ei ollwng ymaith oni buasai ei fod wedi appelio at Caesar, "Am hyny," medd efe, "y gelwais am danoch chwi, i'ch gweled ac i ymddiddan a chwi, canys o achos gobaith Israel y'm rhwymwyd i â'r gadwyn hon." *

"Hwythau a ddywedasant wrtho, ni dderbyniasom ni lythyrau o Judea yn dy gylch di, ac ni fynegodd, ac ni lefarodd neb o'r brodyr a ddaeth oddiyno ddim drwg am danat ti. Ond yr ydym ni yn deisyf cael clywed genyt ti beth yr ydwyt yn ei synied, oblegid am y sect hon y mae yn hysbys i ni fod ym mhob man yn dywedyd yn ei herbyn."

---

* Y ffordd gyffredin gan y Rhufeiniaid o warchod carcharor a ganiateid i fyned oddiamgylch oedd, trwy sicrhau un pen i gadwyn am ei fraich ddehau, a'r pen arall am fraich aswy milwr, yr hwn a elai oddiamgylch yn wastad gyda'r carcharor yn y dull hwn. At y fath gadwyn y cyfeiria yr Apostol yma.

Yna dywedir i ddiwrnod gael ei nodi, ac i lawer o'r Iuddewon ddyfod i'w letty, i'r rhai y tystiolaethodd ac yr eglurodd deyrnas Dduw, gan gynghori y pethau am yr Iesu, sef mai efe oedd y Messiah—y pwne mawr mewn dadl yr amser hwnw rhwng yr Apostolion a'r Iuddewon. Ni chredai nemawr o honynt, nac yn Judea, na gwledydd ereill, mai'r Iesu oedd efe, am hyny, dywedent ym mhob man yn erbyn y sect gan wneyd iddynt bob niwed a allent.

Dywed yr Iuddewon wrth yr Apostol fod yn hysbys iddynt am y sect hon fod ym mhob man yn dywedyd yn ei herbyn. Y gair a ddefnyddia yr hanesydd yn y fan hon yw *heresi*. Ystyr y gair yw *dewisiad*. Dewisiai canlynwyr Crist egwyddorion yr Efengyl o flaen pob egwyddorion crefyddol eraill. Heresiaid oedd y Crist'nogion mewn cyferbyniad i Iuddewaeth; felly hefyd y Phariseaid, y Saduceaid, ac ereill o'r sectau Iuddewig. Heresiaid hefyd yw pob enwad o Grist'nogion mewn cyferbyniad i Grist'nogaeth. Heresiaid ydym ninau yr Undodiaid, ac yn ol y farn gyffredin, y mwyaf cyfeiliornus o bawb heresiaid. Dywed dynion gymmaint yn ein herbyn ni ag y dywedai yr Iuddewon yn amser Paul yn erbyn y Crist'nogion. Er cymmaint a bregethwn ac a ysgrifenwn, mae rhagfarn y werin o hyd yn gryf yn ein herbyn. Y farn gyffredin am danom yw, ein bod yn gwadu Crist, ac mai rhyw fath o Ddeistiaid ydym.

Prif ymdrech yr Apostolion oedd profi allan o'r Ysgrythyrau mai'r Iesu oedd y Crist; ein hymdrech ninau ddylai fod symud ymaith y rhagfarnau sydd yn ein herbyn trwy ddefnyddio pob cyfleusdra a gawn i egluro ein syniadau i ddynion, a dangos mor gysson ydynt â dadguddiad Duw yn yr Ysgrythyrau, ac yn ei weithredoedd.

Yr ydwyf fi yn rhwym o addef na phregethwn i bregeth byth, pe na chredwn fod ein syniadau crefyddol yn fwy cydweddol â phriodoliaethau Duw, yn fwy anrhydeddus i Grist, yn fwy cysson â'r Ysgrythyrau, yn fwy unol a rheswm, ac ym mhob ystyr yn fwy cysurus i fyw ac i farw ynddynt, na'r athrawiaethau poblogaidd. Pe na chredwn hyn, rhoddwn i fynu fy ngwaith o bregethu, oblegid mae digon o bregethwyr yn y wlad, a digon hefyd o bregethu.

"Yr ydym ni yn deisyf cael clywed genyt ti pa beth yr ydwyt yn ei synied," medd yr Iuddewon wrth yr Apostol, a dywed yr hanes iddynt nodi diwrnod iddo pryd y tystiolaethodd ac yr eglurodd deyrnas Dduw gan gynghori iddynt y pethau am yr Iesu allan o gyfraith Moses a'r prophwydi, o'r boreu hyd yr hwyr. Mor selog oedd yr Apostol!! Ond pwy ryfedd? Yr oedd efe wedi gweled Iesu Grist, ac wedi cael y fraint o ymddiddan ag ef. Gwyddai ei fod wedi adgyfodi o feirw, ac mai gwirionedd oedd ei dystiolaeth am dano.

Fy nyben i yn bresenol fydd ceisio dangos yn fyr, ac mor gynhwysfawr ag y gallaf, beth yr ydym ninau, yr Undodiaid, yn synied, canys mae yn hysbys i bawb fod yn llawer man, os nid nid ym mhob man, yn dywedyd yn ein herbyn, fel yn erbyn yr Apostolion a'r Crist'nogion cyntaf.

Peth anghysson â'n hegwyddorion ni fel rhyddymofynwyr, medd rhai, yw gwneyd cyffes ffydd yn sylfaen undeb eglwysig, oblegid fod tueddiad, meddant, mewn cyffes ffydd i lyffetheirio meddylian

dynion yn eu gwaith yn chwilio am y gwirionedd. P'un a yw yn ddichonadwy ai peidio cario'r egwyddor hon yn rhy bell, nid fy mhwrpas i yw penderfynu; ond un peth a ymddengys i mi yn sicr, sef fod yr enwadau hyny sydd a chyffes ffydd yn sylfaen eu cymundeb, yn gyffredin yn fwy gwresog, yn fwy unol â'u gilydd fel aelodau, ac yn fwy selog dros yr achos, nag ydym ni. Diau fod profiad yn erbyn ein hegwyddor. Mae arferiad yr Eglwys Grist'nogol ym mhob oes hefyd yn ein herbyn.

Ond pa fodd bynag, mentraf ddyweyd fod genym ni yr Undodiaid syniadau crefyddol pwysfawr, sefydlog, ac a gredir yn gyffredinol yn ein plith, p'un a ddewiswn eu gwneyd, mewn dull ffurfiol, yn sylfaen ein heglwys ai peidio. Nid ydym, gobeithio, o nifer y cyfryw a ddesgrifir gan yr Apostol fel "yn dysgu bob amser, heb allu dyfod un amser i wybodaeth o'r gwirionedd." Nid ymffrost ychwaith fyddai dyweyd nad oes un enwad yn gosod mwy o bwys, nag ydym ni, ar iawnadnabyddiaeth o wirioneddau crefyddol, er nad ydym, fel rhai enwadau, yn dal fod colledigaeth neu gadwedigaeth neb yn ymddibynu ar ei waith yn *credu* neu yn anghredu unrhyw athrawiaeth mwy na'i gilydd, fel pe yr ymddibynai cymeradwyaeth ger bron Duw ar y ffaith o gredu. Gwirioneddau crefyddol ydynt o'r pwys mwyaf yn ein golwg, ond credu ydym fod y rhinwedd yn gynwysedig nid yn y ffaith ein bod yn eu credu, ond yn yr effaith a ga yr hyn ydym yn gredu ar ein calonau.

Nid ydym yn gofyn, nac yn disgwyl ychwaith, i bawb yn ein plith fod o'r un gred ynghylch pob pwnc perthynol i grefydd, a myfi yn unig sydd yn attebol am y golygiadau a draddodir yn y bregeth hon. Rhaid i ddynion wahaniaethu yn eu meddyliau fel y gwahaniaethant yn eu cyfansoddiadau, eu tymherau, a'u hamgylchiadau yn y byd. Appwyntiad Duw, yr hwn sydd yn ddoeth ac yn ddaionus yn ei holl weithredoedd, yw hyn er llês dynolryw. Er hyny, y mae egwyddorion crefyddol a gredir genym fel enwad ag nad allwn anghytuno lawer yn eu cylch. Egwyddorion sylfaenol ein fydd ydynt, oherwydd pa rai yr ymneillduwn oddiwrth bob enwad arall.

Un o honynt yw'r athrawiaeth fawr o Undod Duw. Hon yw sylfaen ein ffydd. O'i herwydd yr honwn hawl mewn modd neillduol i'r enw *Undodiaid.* Nid oes un enwad Crist'nogol, mae'n wir, nad ydyw yn proffesi credu yn Undod Duw, neu mai un Duw sydd, am hyny hona rhai o honynt nad oes genym ni ddim mwy o hawl i'r enw Undodiaid nag sydd ganddynt hwy. Ond dylent ystyried, cyhyd ag y proffesont hwy gredu fod y Duwdod yn rhanedig i nifer o bersonau, nas gall fod ganddynt yr un hawl i'r enw Undodiaid ag sydd genym ni sydd yn credu yn Undod anrhanadwy y Duwdod. Cyhyd gan hyny ag y byddo Trindodiaeth yn y byd, rhaid mai ni sydd Undodiaid, a elwir yn briodol felly.

Athrawiaeth yw Undod yr Hanfod Ddwyfol ag nas gall dim amrywiaeth meddwl fod yn ein plith yn ei chylch. Cyttunwn oll nas gall fod o *angenrheidrwydd* ragor nac Un Bod Anfeidrol, oblegid os oes rhagor nac Un, nid ydynt yn fodau anfeidrol. Ond cynted ag y dechreuwn geisio darlunio y modd y bodola Duw, pa beth yw anfeidroldeb, a'r cyffelyb, dichon y byddai i ni anghytuno, ond ni fyddai ein gwahanol olygiadau o gymaint pwys yn ein golwg ag i achosi ymraniad. Yr ydym yn synied,

gan hyny, mai un Duw sydd, ac i fod y Duwdod yn anrhanadwy. Y mae'r athrawiaeth hon o'r pwys mwyaf yn ein golwg.

Athrawiaeth bwysig arall yn ein ffydd yw Dwyfoldeb cenadwri yr Arglwydd Iesu Grist, hyny yw, yr ydym yn Undodiaid Crist'nogol. Undodiaid yw'r Iuddewon, Undodiaid yw'r Mahometaniad, ac Undodiaid yw'r Deistiaid, ond nid Undodiaid Crist'nogol, am nad ydynt yn credu yng Nghrist. Y ni yn unig ydym Undodiaid Crist'nogol, oblegid y ni yw'r unig Undodiaid sydd yn credu am yr Iesu mai Cenhadwr oddiwrth Dduw ydoedd mewn ystyr mwy neillduol na phawb eraill, ac i Dduw ei gyfodi ef o feirw. Credwn fod yr hanes am dano yn y Testament Newydd o amser ei ymddangosiad cyhoedd, hyd ei esgyniad i'r nef, ar y cyfan yn wir, ac yn deilwng o bob derbyniad. Credwn mai nid ffugenwau yw Matthew, Marc, Luc, ac Ioan. O ganlyniad yr ydym yn credu i'r Iesu wneuthur gweithredoedd nerthol yn ol yr hanes am dano yn y pedair Efengyl, ac yn enwedig iddo adgyfodi o feirw—gwyrth fawr yr holl wyrthiau. Credwn nad oes un rheswm digonol i amheu y pethau hyn, ac i fod yr hanes sydd genym am Grist yn fwy credadwy, pe bai bossibl, na'r hanes am Julius Cæsar, neu unrhyw wr enwog arall yn yr hen oesoedd. Yn wir nis gallaf fi weled pa fodd y gall neb ystyried ei hun yn Gristion mewn proffes ac ar yr un pryd amheu gwirioneddau sylfaenol y grefydd Grist'nogol. Onid peth gwrthun fyddai i un broffesu ei fod yn *Newtonian* mewn *philosophi* ac a wrthodai ryw egwyddor bwysfawr yn nghyfundraeth Newton? Pa fath Fahometan fyddai hwnw na chredai yn y Koran.

Cristion mewn proffes yw'r hwn sydd yn credu mai'r Iesu oedd y Crist, hyny yw, i Dduw ei gyfodi ef o feirw. Nid oes un Crist arall i'w gael ond Crist y Testament Newydd. Gellir, mae'n wir, ffugio neu amgyffred rhyw fath o Grist fel cynnrychiolydd corphorol o bob rhinwedd a daioni, a'i alw yn Grist *mewnol*, ond math o *Will o' the whisp*, neu hudlewyrn, fyddai yn y diwedd. Mae yn amlwg mai nid yr un peth fyddai Crist mewnol y Saison, ac un y Ffrancod. Byddai Crist mewnol y Germans yn wahanol i Gristiau y Saison a'r Ffrancod, a rhyw Gristiau lled ryfedd fyddai Cristiau y *metaphysicians*. Y Crist hanesiol yw ein Crist ni. Nid ydym yn adnabod un Crist arall.

Am weithredoedd nerthol yr Iesu ymddengys i mi, ar ol manol ystyriaeth, mai hollol ddisail yw y rhagfarn sydd yn eu herbyn. Oherwydd nad ydym ni wedi canfod un attalfa *(suspension)* a'r gysson weithrediad cyfreithiau Duw yn y greadigaeth, byrbwyll yw neidio at y casgliad na fu y fath beth erioed, ac nas gall fod ychwaith. Nid oes genym ddim hawl i honi fod y cyfreithiau a welodd y Creawdwr doeth a daionus fod yn dda i sefydlu yn y greadigaeth yn ddigon i ateb pob pwrpas moesol, fel naturiol, tuag at ddynolryw, ac na wnaeth ef ddim cyfrif o'r peth a alwn ni yn *wyrth*, fel rhan o'r moddion a fwriadau ddefnyddio i'r dyben i ddeffroi dynion o'u cysgadrwydd moesol. Paham na wnai ef ddefnydd *goruwch naturiol* (os priodol y gair) o'i gyfreithiau yn anian, yn enwedig er mwyn sefydlu goruchwyliaeth sydd wedi bod yn gymmaint o fendith i'r byd ag yw Crist'nogaeth, ac i fod etto i filoedd? A oes rhyw beth yn wrthun yn hyn, neu yn ddiraddiad o'i ddoethineb a'i gariad tuag atom? Onid yw y ddaear yma a'i holl gyflawnder wedi ei chreu er mwyn cynal

bywolion a gweini iddynt ddedwyddwch, yn enwedig i ddynolryw—ei greaduriaid rhesymol? Nid gwiw dyweyd fod moddion digonol eraill at ei bwrpas, heb allu dangos i foddlonrwydd pob dyn rhesymol nad oedd, ac na allai, gwyrthiau fod yn rhan o'r moddion hyny.

Nid peth afresymol ynddi ei hun yw gwyrth, fel y meddylia rhai. Nid difuddiad yw chwaith o gyfreithiau anian. Er siampl, nid difuddiad o gyfraith y dysgyrchiad oedd gwaith Crist yn rhodio ar y môr, mwy na phe daliai un y llyfr hwn i fynu â'i law rhag cwympo. Nid difuddiad o gyfraith anian yw gwaith gallu goruwch yn ei gorchfygu. Nid yw gwaith y llaw yn dal i fynu y llyfr yn difuddio y dysgyrchiad. Yn ei gorchfygu y mae. Tuedd y llyfr o hyd yw cwympo i lawr. Felly Crist hefyd yn rhodio ar y tonau. Yr oedd y dysgyrchiad o hyd yn gweithio, a buasai Crist yn sicr o soddi oni fuasai fod llaw Duw yn ei ddal i fynu.

Ond y gwir yw nis gellir profi na gwrthbrofi gwyrthiau Crist trwy un rhyw rhesymau arddansoddawl, oblegid ymddibynant yn hollol ar wiredd neu anwiredd yr hanes. Os yw'r hanes yn wir, rhaid i ni gredu i'r Iesu wneuthur gweithredoedd nerthol, ac i Dduw ei gyfodi ef o feirw. Os nad yw'r hanes yn wir, nid oes genym un Crist yn y byd, ond rhyw Grist *mewnol* a grea hwn a'r llall yn ol ei amgyffred ei hun.

Er nad fy mwriad i yn bresenol yw traethu ar y gwyrthiau, eto pe gwyddwn na wasgwn ormod ar eich amynedd, gosodwn o'ch blaen yn fyr un neu ddwy o'r *theories* a ddyfeisiwyd o bryd i bryd gan anghredinwyr y gwyrthiau, er mwyn cyfrif am yr hanes o honynt yn y Testament Newydd; ond mae pob *theory* ar a welais i eto yn creu mwy o anhawsderau nac mae yn symud. Dywed rhai mai chwedlau (*myths*) ydynt a ffugiwyd o bryd i bryd gan y Crist'nogion yn ystod y ddau ganrif gyntaf, ac a ysgrifenwyd o'r diwedd mewn llyfrau. Rhai o'r llyfrau hyn, meddant, yw'r pedair Efengyl, ac os nad ffugenwau yw Matthew, Marc, Luc, ac Ioan, dywedir i ffugiad y gwyrthiau gael ei chwanegu at waith cyntefig y pedwar Efangylwr mewn oes ddiweddarach. Yn awr, os ffugiad neu chwedlau yw y gwyrthiau, pa fodd y ddarfu i'r Crist'nogion ddigwydd llunio chwedlau mor ddwys, mor ddiwrachiaidd, mor debyg i wir, fel nas gall un dyn deallus eu darllen heb deimlo fod argraff y gwirionedd arnynt? Hefyd, pa fodd y darfu i'r Crist'nogion yn Asia, yn Ewrop, yng Ngogledd Africa—Crist'nogion ag oeddynt ganoedd os nid miloedd o filldiroedd oddiwrth eu gilydd—lunio yr un chwedlau? Onid oedd y peth yn fwy o wyrth nag un o wyrthiau Crist? Hefyd, os ychwanegiad at gyfansoddiadau cyntaf yr Efangylwyr yw hanes y gwyrthiau, pa fodd nad oes ar glawr yn hanes yr Eglwys un sill nac un awgrymiad ynghylch y cynhwrf a'r gwrthwynebiad fuasai y fath ychwanegiad nodedig yn sicr o achosi yn yr eglwysydd, pe fuasai y fath beth wedi cymeryd lle?

Eraill ydynt yn ceisio cyfrif am hanes y gwyrthiau trwy ddyweyd fod yr Iesu, fel prophwydi eraill yn ei oes, yn credu fod dawn gwyrthiol yn cydfyned â'r swydd brophwydol. Dywedant na wnaeth ef wyrth erioed mewn gwirionedd, ond y credai ei fod yn gwneyd gwyrthiau, a chredai ei ddysgyblion hefyd yr un peth. Er siampl, meddyliodd yr Iesu iddo unwaith rodio ar y môr; meddyliodd Pedr iddo ynte weled yr Iesu yn rhodio ar y môr; iddo geisio caniatad i fyned atto ar y dw'r; ac wedi disgyn o'r llong meddyliodd iddo ofni oherwydd iddo feddwl fod y gwynt yn

gryf, ac iddo ddechreu soddi; meddyliodd i'r Iesu estyn ei law ac ymaflyd ynddo. Ond meddwl gwag oedd y cyfan; ni fu y fath beth erioed. O'r diwedd ysgrifenodd y dysgybhion ac eraill yr holl wag-feddyliau allasent gofio, mewn llyfrau, ac ar y sail dywodlyd hon y mae ffydd y Crist'nogion yn gorphwys ys yn agos i ddwy fil o flynyddau!!*

Un gair yn rhagor am y gwyrthiau. Nid ydym ni yn meddwl fod addysgiadau moesol Crist yn well neu yn fwy effeithiol fel y cyfryw o ran y gwyrthiau. Nid pethau newydd i'r byd oedd llawer o addysgiadau Crist. Cyfarfyddir â rhai o'r un egwyddorion yn y prophwydi, ac hyd yn nod mewn awduron paganaidd. Camsynied, a chamsynied pwysfawr yw meddwl mai fel dysgawdwr moesol mae dylanwad Crist ar feddyliau a serchiadau dynion yn gynwysedig. Cydymdeimlai â thrueiniaid tan bwys doluriau, gwasgfeuon y byd, ac effeithiau niweidiol pechod. Ond bu llawer yn y byd yn meddu ar gymaint o gydymdeimlad heb feddu ar fymryn o ddylanwad Crist. Nid yn hyn yr oedd grym ei ddylanwad ef, nac ychwaith yn ei ffydd ddiysgog yng nghariad a doethineb Duw, a'i ymostyngiad gwastadol i'w ewyllys. Ym mheth yntau yr oedd ei ddylanwad nerthol ef ar feddyliau a chalonau dynion yn gynwysedig? Yr wyf yn ateb mai *yn ei awdurdod fel Anfonedig y Tad*, a sêl ei awdurdod oedd y doniau gwyrthiol. Nid yn unig cydymdeimlai â'r cloff, y dall, y lloerig, ond rhoddai yn y fan draed i'r cloff, golygon i'r dall, a iachâd i'r rhai lloerig. Nid cydymdeimlo yn unig a wnai â'r weddw o Nain, a chwaeriorydd Lazarus yn eu cyfyngder, ond dychwelai yn ol iddynt eu hanwylied o grafanc angeu. Synai y torfeydd wrth ei ddysgeidiaeth oblegid dysgai hwynt fel un a wyddai ei fod wedi derbyn awdurdod oddi uchod. Pa fodd y gwyddai? Oherwydd fod y TAD yn rhoddi gallu iddo wneuthur gweithredoedd na wnaeth neb arall erioed. Yn y doniau gwyrthiol, mewn rhan fawr, yr oedd nerth ddylanwad rhyfeddol yr Iesu. Os ymddifadwn ef gan hyny o'r doniau hyn, nid Crist Iesu fydd ef mwyach i ni, ond rhyw ddysgawdwr moesol cyffredin, nid annhebyg i Socrates, neu Plato, neu Cicero. Dysgai y gwyr enwog hyn lawer o wirioneddau dwys ynghylch dyledswyddau dynolryw, ond ni feddent ar allu i ddeffroi'r byd. Nid oedd eu haddysgiadau ond megys esgyrn sychion Ezekiel Yr oedd yr esgyrn a'r cymalau yno, mae'n wir, a phob asgwrn yn ei le. Yr oedd y skeleton yno, ond nid oedd dim bywyd. Ond pan ddaeth yr ATHRAW MAWR o'r Nef yn awdurdod ei DAD, efe a wisgodd y skeleton â chnawd, ac a anadlodd ynddi anadl einioes, fel yr aeth yr enaid byw. Ei awdurdod fel Cenhadwr oddiwrth Dduw a roddes fywyd i'r byd. Dyma'r dylanwad a berai i ddynion i lefain "Beth a wnawn fel y byddom cadwedig." Dyma'r dylanwad gyffrodd Mari i olchi ei draed ef â'i dagrau, a'u sychu â gwallt ei phen. Dyma'r dylanwad hefyd wnaeth i Pedr wylo, ac i Judas ymgrogi. Ië, frodyr, a thyma'r dylanwad a berodd i ganoedd a miloedd ddioddef erledigaeth ac angeu er ei fwyn, gan ddiolch i Dduw am iddo eu hystyried yn deilwng i osod ei bywyd i lawr tros yr Iesu. Ymddifadwch ef, meddaf, o'r doniau gwyrthiol, ac ni fydd genych weithian ond rhyw ddysgawdwr moesol, distadl, llai na Socrates, a mwy annysgedig na Philato.

---

* Gwel *Inquirer* of September 19th, 1865, p. 592, a letter signed "E. S."

Cymmaint a hyn ynghylch gwyrthiau bendigedig ein Harglwydd Iesu Grist. Af rhagof yn awr i sylwi yn fyr gan ein bod ni, yr Undodiaid, yn synied fod Crist Iesu o ddwyfol ddanfoniad, ein bod yn edrych arno fel arweinydd ein ffydd ni, a thywysog ein hiechydwriaeth. Synied ydym mai efe yw y ffordd, a'r gwirionedd, a'r bywyd. Am hyny derbyniwn ei addysgiadau ef am Dduw, sef mai ein TAD ydyw, ac i fod ei ofal parhäus ef trosom —fod hyd yn nod gwallt ein penau ni oll yn gyfrifedig ganddo. Pan yn ein ceryddu credwn ei fod yn ein ceryddu mewn cariad, ac mai dyben daionus sydd ganddo yn y golwg. Hefyd, gan mae plant yr un TAD ydym, yr hwn sydd yn ein cynal yn wastadol, ac "yn yr hwn yr ydym yn byw, yn ymsymud, ac yn bod," syniwn mai brodyr a chwiorydd ydym, ac mai ein dyledswydd fel canlynwyr yr Iesu, ydyw cydymdeimlo â'n gilydd, ac ymdrechu bod o gynhorthwy i'r naill a'r llall yn ein taith trwy y fuchedd hon.

Yn olaf, gan ein bod yn credu yn nwyfoldeb cenadwri Iesu Grist, ac i Dduw ei gyfodi ef o feirw, synied ydym hefyd fod athrawiaeth fawr arall y grefydd Grist'nogol yn wir, sef adgyfodiad o feirw, a barn i ddôd, pryd ag y derbyn pawb yn ol eu gweithredoedd—yn ol yr hyn a hauont yn y bywyd hwn. Synied ydym, gyda'r Apostol, i Dduw gyfodi'r Iesu fel "blaenffrwyth y rhai a hunasant," hyny yw, yr ydym yn synied fod adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist yn sicrwydd o gynhauaf mawr yr adgyfodiad cyffredinol, fel yr oedd ysgyb y blaenffrwyth a gyhwfanid (Lev. xxiii. 10, 11) ger bron yr Arglwydd yn wystl o'r cynhauaf oedd i ganlyn. Credwn yng ngeiriau'r Apostol i Grist, "ddiddymu angeu a dwyn bywyd ac anfarwoldeb i oleuni trwy'r Efengyl."

Nid ydym yn synied er hyny mai *o achos* i Dduw gyfodi'r Iesu o feirw y cyfyd ef ninau. Camddarluniad o'n ffydd yw hyn gan y rhai a wadant adgyfodiad Crist. Synied ydym ni, yn gyntaf, fod adgyfodiad Crist yn siampl (*specimen*) o'r adgyfodiad cyffredinol, fel yr oedd yr ysgyb a ddygid i'r deml yn siampl o lafur y cynhauaf oedd i ganlyn; hyny yw, pa fath gorph bynag gafodd yr Iesu yn ei adgyfodiad, syniwn y cawn ninau gyrph cyffelyb.

Credu ydym, hefyd, fod adgyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist yn brawf o wirionedd ei genadwri, un o brif ddybenion yr hon oedd datguddio bywyd ac anfarwoldeb. Yr oedd ei adgyfodiad yn un o'r profion cryfaf nad twyllwr oedd. Mor wired gan hyny ag i Dduw gyfodi'r Iesu o feirw y cyfyd ef ninau hefyd yn ei amser priodol ei hun.

Cyn dyfodiad Crist yr oedd amheuaeth mawr ar feddyliau dynion ynghylch sicrwydd bywyd ar ol yr un presenol. Dymunai llawer fod yr athrawiaeth yn wir, ond nid oedd ganddynt un sicrwydd. Tywyllwch dudew orchuddiai'r bedd. Mae yn wir, fod gan Iuddewon a chenhedloedd chwedlau am gyflwr eneidiau y meirw, ond chwedlau oeddynt, a chwedlau gwrachiaidd. Gwyddai yr Apostol am y chwedlau hyn, a phe yr ystyriai eu bod yn ddigon i roddi boddlonrwydd i feddyliau dynion, ni allasai ddyweyd, "Os Crist ni chyfodwyd, ofer yw eich ffydd chwi, a'r truanaf o'r holl ddynion ydym ninau." Ar adgyfodiad Crist yn unig y gorphwysai ei holl obaith ef am fywyd i ddôd, ac ar yr un sylfaen y gorphwys ein gobaith ninnau. O ganlyniad y sawl a amheuant adgyfodiad Crist ac a ymdrechant siglo ffydd eraill ynddo, ydynt nid yn unig

yn amcanu ymddifadu cannoedd o'r cyssur goreu sydd ganddynt dan wasgfeuon a helbylon y byd a'r bywyd hwn, ac ym mwlch cyfyng marwolaeth, ond y maent yn ceisio ein tafln yn ol i'r ansicrwydd oedd ar feddyliau dynion cyn amser Crist, heb un sylfaen i orphwys ein gobaith, ond yn unig chwedlau yr hen philosophyddion.

Ond pa bryd yr adgyfodir y meirw, ac a pha ryw gorff y deuant, nid yw Duw wedi gweled yn dda i ddadguddio i ni, ac nid yw y pethau hyn o gymaint pwys cyhyd ag y mae genym sicrwydd i'r Iesu adgyfodi fel blaenffrwyth y rhai a hunasant. Ac am ddydd y farn, ym mha ystyr y mae i ni ddeall y bydd yr Iesu yn Farnwr, pa le, pa bryd, a pha fodd y'n bernir? pa beth fydd gwobrwy gwir fendigedigion y Tad, a chosp gweithredwyr anwiredd, ni wyr neb ond Duw ei hun, a'r dydd hwnw yn unig a'u datguddia. Digon i ni yn awr yw gwybod, yn ngeiriau'r Apostol, fod Duw wedi "gosod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder trwy y gwr a ordeiniodd efe, gan roddi ffydd i bawb o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw." Gan hyny, frodyr, byddwn barod.

Dyma yn fyr y pethau yr ydym ni yn synied, ac er nad ydym yn gofyn cyffes ffydd oddiwrth neb a unant a'n heglwys, deall pawb yn ein plith fod genym egwyddorion crefyddol pwysfawr ynghylch pa rai nis gall fod unrhyw amrywiaeth neillduol. Ystyriwn fod y golygiadau hyn yn cynwys swm a sylwedd y grefydd Grist'nogol, ac o ganlyniad os cânt yr argraff ar ein calonau a ddylent, ystyriwn eu bod yn ddigon i weini dedwyddwch i ni yn y bywyd hwn, a gobaith am barhâd o'r un dedwyddwch mewn bywyd i dd'od.

Cyn diweddu gwnaf sylw byr o ddau haeriad a wneir yn erbyn ein syniadau gan ein brodyr Trindodaidd

Un peth, dywedant mai rhyw fath o grefydd nacäol yw Undodiaeth, ac nad yw yn cynwys dim sydd sicr, dim sydd gadarnhaol.

Tynant y casgliad hwn, debygwn, o herwydd ein bod yn gwrthod rhai athrawiaethau a ystyriant hwy yn anhebgorol angenrheidiol er iechydwriaeth, megys y Drindod, ac athrawiaeth yr haeddiant. Am ein bod ni yn "gwadu" y rhai hyn, neidiant i'r casgliad fod ein crefydd yn gynwysedig mewn gwadu yr athrawiaethau Trindodaidd. Mae yn wir ein bod yn gwrthod y Drindod, y cyfundraethau poblogaidd ynghylch yr Iawn, ac un neu ddwy athrawiaeth arall, oherwydd rhesymau a ystyriwn ni yn ddigonol, ond nid yw yn canlyn oddiwrth hyn mai rhyw beth nacäol yw Undodiaeth. Yr ydym ni yn credu mai Un Duw sydd, Creawdwr doeth a daionus, a llywodraethwr pob peth; mai efe yw ein TAD cariadlawn, ac y dylem ei wasanaethu ef â'n holl feddwl ac â'n holl galon. Ai peth nacäol yw hyn? Ai nacäol yw y ffydd a ddysga dynion i garu Duw ac i rodio yn ei orchymynion? Beth ynte all fod yn gadarnhaol? Nid peth nacäol, debygwn, yw credu mai yr Iesu oedd y Crist—unig-anedig Fab Duw, iddo wneuthur gweithredoedd nerthol trwy fys Duw, ac iddo adgyfodi o feirw, ac esgyn i'r nef. Credwn yn adgyfodiad y meirw a barn i dd'od. Credwn y bydd i'r rhai sydd yn hau i'r cnawd, o'r cnawd fedu llygredigaeth, ac y bydd i'r rhai sydd yn hau i'r Ysbryd o'r Ysbryd fedu bywyd tragwyddol. Os nacäol yw y pethau hyn, yna peth nacäol yw y grefydd Grist'nogol i gyd, oblegid dyma ei swm a'i sylwedd. Nage, nage,

nid nacäol yw y ffydd Undodaidd; ond ffydd ydyw sydd yn sylfaenedig ar eiriau ac awdurdod Duw yng Nghrist Iesu.

Peth arall, dywedir am Undodiaeth, ei bod yn grefydd o'r goreu mewn hawddfyd ac iechyd, ond na all weini cysur mewn adfyd. Dywedir hyn am ein bod yn gwrthod athrawiaeth anysgrythyrol yr haeddiant, yr hon a ddysga dynion i gredu na chaiff neb ddedwyddwch i'w enaid ond y cyfryw a gânt eu cyfrif yn haeddianol yn haeddiant Crist. Yr ydym ninau yn dyweyd mai y neb sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, ac na chaiff neb weled Duw ond y pur o galon. Ond beth yw prif achos anedwyddwch dynion yn y byd? Onid pechod neu drosedd yn erbyn Duw? Yn awr, a ŵyr neb am anrhyw grefydd a argyhoedda ddrwg pechod yn fwy llym nac Undodiaeth? Ni addaw Undodiaeth nefoedd i neb er mwyn cyfiawnder un arall. Pe gwrandawai dynion ar Undodiaeth, dychrynent gyflawnu pechod, a deallent nad oes un drwg yn y byd i'w ofni gymmaint â drwg pechod.

Ac am drallod, gwasgfeuon y byd, a nychdod afiechyd, pwy grefydd a weinydda fwy o gysur nac Undodiaeth? Pwy all fod yn fwy amyneddgar tan gystuddiau na'r Undodwr? Dysg Undodiaeth mai ein TAD yw Duw, ac fel TAD yn ymddwyn tuag attom. Dysg Undodiaeth ni i ymostwng i'n TAD doeth a daionus, gan ystyried ei fod yn gwybod yn well na ni beth sydd oreu er ein lles. Mae pob Undodwr dwys a deallus yn gweled bys Duw ym mhob amgylchiad, ac i fod holl drefnau ei ragluniaeth yn gymmwys a da.

"Ie," medd rhyw un, "ond beth pan y daw angeu i'ch cyfarfod?" Pwy etto, gofynaf, all ymadael a chyfeillion a pherthynasau mwyaf anwyl a hoff yn angeu, yn well ac yn fwy cyssurus na'r Undodwr sydd yn credu i Dduw gyfodi Crist oddiwrth y meirw, ac mai mor wired a hyny y cyfyd ninnau hefyd yn ei amser da ei hun, ac y cawn y dedwyddwch o gyfarfod â'r rhai y bu yn hoff genym am danynt, ac ailgyfeillachu a hwynt mewn bywyd gwell, lle na bydd wylofain na dagrau mwy? Hefyd pwy all farw yn fwy dedwydd na'r dyn hwnnw sydd yn credu fod y BOD ANFEIDROL ag sydd wedi rhoddi bywyd iddo ar y cyntaf yn gallu, ac y gwna efe adnewyddu yr un bywyd drachefn. Dysga Undodiaeth ni i edrych ar hûn y bedd fel hûn nos, ac i gredu y gwawria'r boreu yn fuan pryd y cawn gyfodi yn holl iach. Gofynaf, gan hyny, i bawb Trindodwyr rhesymol a dysgedig, paham y dywedwch nad yw Undodiaeth yn abl i weini cyssur yn y bwlch cyfyngaf all gyfarfod cig a gwaed? Nid oes dim gwir yn y cyhuddiad.

Dyma beth yr ydym ni yr Undodiaid yn ei synied. Dyma ein ffydd ni, ac yr ydym yn ystyried mai ffydd gadwedigol yw. Dywedir yn ei herbyn yn llawer man; ond cymerwn galon, ym mlaen yr â'r gwirionedd er gwaethaf pob rhwystr; ni orchfyga pyrth uffern o hono. Nid oes achos gwangaloni, frodyr, er fod angeu yn ddiwyd wrth ei waith ac o bryd i bryd yn torri i lawr yn ein plith ni, fel eraill, bleidwyr galluog ein ffydd. Mae'n wir, yn ystod y pumtheg mlynedd diweddaf collasom weinidogion hyawdl a dysgedig. Mae llaw rhagluniaeth wedi bod yn drwm ar ein hachos. Yr ydym yn teimlo eu heisiau yn ein cynylleidfaoedd, ac yn ein cyrddau cwarterol a blynyddol. Llawer gwaith y clywsom hwynt yn egluro yn rymus ac yn ddoniol yr egwyddorion pwys-

fawr wyf fi wedi geisio ddwyn ar gof i chwi y tro hwn. Yr oedd eu holl galon yn y gwaith. Ond gwelodd Duw fod yn dda eu symud o'n plith. Na ddigalonwn. Ni ddiflana seren yn y gorllewin na chyfyd eraill yn y dwyrain. Mae'r gwirionedd tan nodded Duw. Cyhyd ag y gwelo fod yn dda i'n gadael ni yma ar eu hol, gwnawn ein goreu i lanw eu lle, ac os na feddwn ar eu galluoedd a'u dawn, na fydded fod neb o honom yn ol iddynt mewn sel, diwydrwydd, ac ymdrech dros y gwirionedd. Na ddigaloned ein heglwysi ychwaith. Er eu bod wedi colli yn ystod yr un amser rai aelodau parchus a selog, nid oes achos llwfrhau. Cyflawned pob aelod ei ddyledswydd mor selog yn ofn Duw a phe credai fod llwyddiant yr achos yn ymddibynu arno ef yn unig, yna mae'n sicr o fyned yn y blaen yn llwyddianus. Bydded i'ch goleuni lewyrchu ger bron dynion fel y gwelont eich gweithredoedd da, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Yna ni bydd achos gwangaloni, oblegid bydd bendith y Duw Hollalluog ar ein hachos, i'r hwn bydded pob clod, mawl, a gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

ANFEIDROL IAWN.

Yn yr Ymofynydd am Mawrth ymddangosodd ychydig nodiadau ar yr athrawiaeth Galfinaidd o bechod anfeidrol a chosp anfeidrol, a cheisiwyd dangos ei bod yn sylfaenedig ar y cam-ddealltwriaeth wrthunaf o natur dyn a chymeriad y Bod Dwyfol. Yn y rhifyn hwn, yn ol fy addewid, cyflwynaf i ystyriaeth y darllenydd pwyllog a diduedd rai sylwadau ar yr hyn a ellir alw yn gyflenwad yr athrawiaeth gyfeiliornus uchod, sef "Anfeidrol Iawn." Er mwyn ymresymiad gwnaf ganiatau am funud (yr hyn ydwyf ym mhell o fod yn gredu) fod dyn wedi cyflawnu pechod anfeidrol, fod y pechod hwnw yn haeddu cosp anfeidrol, ac nad oes gwaredigaeth oddiwrth y cyfryw gosp oddieithr ar gyfrif iawn anfeidrol;—yna dangosaf, mewn modd byr a rhwydd, na wnaethpwyd y fath iawn erioed. Mae y Cristionogion uniawngred, fel eu tybir, yn dal na allai neb wneuthur neu roddi iawn anfeidrol ond Bod anfeidrol yn unig, hyny yw, bod gogyfuwch â'r Jehofa tragwyddol ei hun. Fel hyn y maent yn ymresymu:—"Pe mai dioddefiadau dyn yn unig neu yr angel mwyaf derchafedig, oedd dioddefiadau ein Hiachawdwr, nis gallasent fod yn gymesur â'n pechodau ni. Amhosibl i fod meidrol fuasai dyoddef pwys y digofaint dwyfol neu dalu'r ddyled. Ai Duw anfeidrol a droseddwyd? Yna rhaid oedd wrth Gyfryngwr anfeidrol i wneuthur iawn. Pwyser urddas, anfesurol urddas person y Gwaredwr gyferbyn a thragwyddol barhad ein cospedigaeth ni, yna gwelir ei fod nid yn unig yn gwrthbwyso ond yn gorbwyso. Creaduriaid meidrol ni allant byth roddi iawn anfeidrol hyd yn nod er dioddef o honynt dros oesoedd anherfynol tragywyddoldeb. Ond yr Arglwydd ein Gwaredwr, pan yr ymgymerodd â'r gwaith, gan ei fod yn berson anfeidrol, a roddodd yr iawn gofynol ar unwaith." Felly y mae yn ymddangos mai bod anfeidrol yn unig a allasai roddi iawn anfeidrol. Mae hyn yn berffaith wirionedd, ond, atolwg, pa fod yn yr anfesurol greadigaeth sydd yn anfeidrol ond y Jehofa ei hunan? A wnaeth ef aberthu ei hun iddo ei hunan? Mae hyn mor wrthun a phe byddai i ddyn dori ymaith ei law ddehau ei hun er mwyn dofi ei lid yn

erbyn cymydog a fyddai wedi troseddu yn ei erbyn! Eto, yr wyf yn gofyn, A ddyoddefodd Creawdwr y byd? Ai Duw a ddyoddefodd ing-oedd Gethsemane? Ai Duw a lefodd ar Galfaria, "Eloi, Eloi, lama sabachthani?" Ai gwaed Duw a dywalltwyd gan y milwr? Ai Duw a fu farw, ac a gladdwyd ym medd Joseph? A fu yr anfarwol farw? A beidiodd ffynon pob bywyd a byw? Mae'n syn meddwl y medr dynion ateb y gofyniadau uchod yn gadarnhaol!

"Awdwr nêf a daear hefyd—drengodd
Drwy angeu dychrynllyd;
Er gorwedd ar lawr gweryd
Codai'n iach i burach byd."

Llanrhystyd. M. DAVIES.

"A Duw eich enaid arbed wnaeth
Bu *farw* er dwyn yn rhydd y caeth."

WESLEY.

"Mi wela fwy nag aur Peru
Mewn defnyn bach o waed fy Nuw."

"O ddedwydd awr, o ddedwydd loes,
Bu'm *Duw yn hongian* ar y groes."

"'Does angel fyth na seraph,
Na cherub o unrhyw;
I r filfed ran all dd'wedyd,
Mor werthfawr *gwaed fy Nuw.*"

Os bu Duw farw, pwy oedd yn llywodraethu'r bydysawd dros yspaid y trî diwrnod y bu yn gorwedd yn y bedd? Os trengodd Jehofa ar y groes, pwy oedd yn rhwystro'r planedau i daraw yn erbyn eu gilydd, ac yn cadw'r anifeiliaid a'r llysieu rhag myned i ddiddymdra? Ie, os unwaith y tynwyd braich Hollwybodaeth ac Hollalluogrwydd odditan y bellen ddaearol hon, pwy a'i cadwodd rhag chwyrnellu yn ysgyrion ar ei chylchdaith? Os bu Jehofa farw, pwy a'i cododd o feirw? Dywed dynion lawer mewn amhwyll ac anystyriaeth, nad ydynt mewn gwirionedd yn gredu yn eu horiau sobr. Pa berchen synwyr a greda i'r Duw mawr farw ar Galfaria? Pwy ynte afu farw? A chaniatau fod Crist yn Dduw-ddyn, pwy oedd efe yr hwn a fu farw ac a gyfododd drachefn? Beth y mae Paul yn ddywedyd? Y DYN Iesu;—"canys gan fod marwolaeth trwy ddyn, trwy ddyn hefyd y mae adgyfodiad y meirw." Hyn hefyd a gyfaddefir gan y rhai a amddiffynant athrawiaeth yr Iawn pan yr ymosodir arnynt gan ambell i ymresymwr medrus. Un awdwr galluog a phoblogaidd yn eu plith a ddywed fel y canlyn: "Yn ei ddyndod yn unig yr oedd Crist yn abl i ufyddhau a dioddef drosom ni; yn hyn yn unig y mae yn gwisgo'r cymeriad o archoffeiriad trugarog a ffyddlon yn medru cyd-ddioddef gyd â'n gwendid ni." Ni bu farw'r Iesu, gan hyny, yn ei Dduwdod, yn yr hyn yn unig yr oedd mewn gwirionedd yn anfeidrol. Ni pherthynai anfeidroldeb i'w ddyndod. Felly ni ddioddefodd y Duwdod, ac ni roddodd y Duwdod anfeidrol iawn. A allai dyndod yr Iesu wneuthur hyny? Na allai yn wir, oblegid "meidrol" oedd y dyndod. Y mae'r Calfiniaid yn rhwydd barod i ganiatau hyn. Pan y mae'r Undodiaid yn coffhau yr adnod "Eithr eistedd ar fy llaw ddehau, ac ar fy llaw aswy nid eiddof ei roddi"—y mae'r Trindodiaid yn ateb mai fel yr oedd yn ddyn y dywedodd yr Iesu hyn; felly, fel yr oedd yn ddyn, yr oedd "gallu'r Iesu yn feidrol." Pan mae'r Undodiad yn dyfynu'r adnod, "Eithr am y dydd hwnw a'r

awr ni wyr neb, na'r angylion sydd yn y nef, na'r Mab, ond y Tad yn unig,"—y mae'r Trindodiaid yn uniongyrchol yn ateb mai llefaru fel yr oedd yn ddyn yr oedd yr Iesu y pryd hyn; felly yr oedd natur ddynol yr Iesu yn feidrol mewn gwybodaeth. Pan y sonia'r Undodiaid am y geiriau hyny o eiddo'r Iesu, "Paham y gelwi fi yn dda, nid oes neb da ond un sef Duw;" mae'r Trindodiaid fel arferol yn barod a'u hateb, sef, mai yn ei natur ddynol yr oedd yr Iesu yn dywedyd hyn; felly etto yr oedd natur ddynol yr Iesu yn feidrol mewn daioni. Yn ol cyfaddefiad y Trindodiaid eu hunain os oedd Crist yn ei natur ddynol yn feidrol mewn gallu, doethineb, a daioni, hyny yw, yn feidrol mewn pob priodoledd, yr wyf yn gofyn a allai yr Iesu yn ei gymeriad meidrol gyflawni gweithred anfeidrol? a allai ef roddi iawn anfeidrol? Dim, dim: oblegyd yng ngeiriau awdwr a ddyfynwyd o'r blaen, "amhosibl i fod meidrol fuasai dioddef pwys y digofaint dwyfol neu dalu'r ddyled;" neu yn fwy eglur fyth, "creaduriaid meidrol ni allant wneuthur iawn anfeidrol." Felly ar dir y Trindodiaid eu hunain y mae anfeidrol iawn yw beth anichonadwy; y rhan anfeidrol o'r Iesu, sef ei Dduwdod, ni allai ddioddef na marw; dyn ddioddefodd ac a fu farw, ond meidrol yw dyn, ac ni allai ddioddef y digofaint na thalu'r ddyled.

Mor ansylweddol a hynyna yw yr honiad "fod dyn wedi cyflawni pechod anfeidrol, ac o ganlyniad wedi haeddu cosp anfeidrol, ac nad oes gwaredigaeth ond ar gyfrif iawn anfeidrol." Mae'n diflanu mor gynted ag y dechreuir ymresymu yn ei gylch. Wrth derfynu nis gallaf lai na chwanegu fy mod weithiau yn amheu onestrwydd y rhai a wnant ddefnydd o'r rhesymiad hwn. Wrth y dosparth anwybodus o'n gwrandawyr mynych soniant am yr angenrheidrwydd o fod Bod anfeidrol wedi dyoddef dros bechodau'r byd—fod Duw ei hun wedi marw a thywallt ei ddwyfol waed. Dyna'r athrawiaeth a bregethir i'r lluaws anwybodus, a chynhyrfir hwynt braidd i wallgofrwydd wrth ddywedyd wrthynt fod eu Creawdwr wedi tywallt ei waed ar Galfaria er eu mwyn. Ewch at yr athrawon yma, siaradwch ac ymresymwch â hwynt, ac yna cyfaddefant yn rhwydd mai natur ddynol Crist yn unig a ddioddefodd ar y groes, fod ei natur ddwyfol uwchlaw pob dioddefiadau. Gan mai fel hyn y mae'n bod, a oes genym ddim sail i'w cyhuddo o fod yn pregethu un athrawiaeth i'r dysgedig, a phregethu athrawiaeth arall i'r anysgedig? Mae'n bryd bellach i ddynion fod yn onest, i beidio geirdroi a thwyllymresymu, ond i ddysgu'r gwirionedd fel y mae yng Nghrist Iesu. R. M.

LLYSIEUAETH Y BEIBL.

Y MAE cynyrch llysieuol y wlad hono i ba un yr ymgasgla cenhedloedd y ddaear i addoli, tros wyneb pa un yr ymdeithiodd traed y Gwaredwr, y wlad hono ym mha un y bu y digwyddiadau mwyaf pwysfawr yn hanes dynolryw, sef Judea, ym meddu math o swyn nad ydyw y cyfryw bethau mewn un wlad arall yn eu mheddu. Mae y planhigion a'r blodau a dyfasant ac a addurnasant olygfeydd y beirdd, y dewrion, a'r doethion gynt, yn rhyfeddol o ran eu gallu i ymdreiddio i ddyfnderoedd ein serchiadau. Yr ydym yn gwerthfawrogi blodeuyn wedi eu dynu o ddaear gysegredig hanesyddiaeth, yn llawer mwy na blodeuyn harddach a mwy

aroglber o ddaear mwy cynefin a chyffredin—glaswelltyn oddiar fedd Bunyan—môr-flodeuyn o demlau neu allorau dadfeiliedig Jona,—brigyn o'r ddrysien hono a adgofiai y milwr Prydeinig am ei gartref trwy ei harogl cynefin, pan y methrid hi o dan garnau y rhyfelfarch yn y Crimea. Y mae y cyfryw bethau yn ymddiddan a'r enaid mwyaf tywyll a marwaidd mewn iaith nas gellir ei chamsynied. Gallwn ddeall y teimladau, a ymgynhyrfent ym mynwes Dr. Carey pan y gwelodd *Flodeuyn y dydd* yn tyfu yn ei ardd yn Serampore, yr hwn a ddygwyd yn ddymweiniol i India mewn daear gyda hadau eraill. Gallwn ffurfio drychfeddwl am y teimladau a grewyd yn nhrigolion un o ddinasoedd Awstralia, pan y daeth y newydd fod rhosyn o Brydain wedi dyfod trosodd yn ddiogel mewn blodau-lestr. Y mae cyssylltiadau ac amgylchiadau yn aml yn taflu swyn annhraethol tros wrthrychau mwyaf cyffredin a chyfarwydd natur. Yr un modd y mae cedrwydd lebanon, rhosyn Sharon, a lili y dyffrynoedd, yn dylanwadu ar feddwl, ac ar deimladau y Cristion. Arnynt hwy yr ymorphwysai meddwl yr Iesu mewn rhyfeddod, ac mewn bendith a diolchgarwch. Y maent wedi eu cyssylltu yn anfarwol ag ef mewn gwersi o brydferthwch a doethineb. Y mae llawer plentyn, ag nid yn unig hyny, ond y mae llawer dyn, yn anwybodus o enwau y llysiau a'r blodau gwylltion sydd yn addurno y cloddiau a'r dolydd oddiamgylch idd eu cartref; ond pwy sydd heb wybod am y ffigysbren ddiffrwyth a felldithiodd Crist; am y sycamorwydden i ben pa un y dringodd Zacheus y Publican; am y lili a dyfai ar Fynydd Tabor, i ba un nid oedd Solomon yn ei holl ogoniant yn deilwng i'w gydmaru?

Y mae llawer myfyriwr ysgrythyrol, er yn anwybodus o bob llysieuiaeth arall, yn wybodus, ac yn ddoeth yn mint, anise, a cummin yr Hen Destament. Gall weled mewn dychymyg gedrwydd coedwig Lebanon, a phalmwydd Jericho, ac olewydd gardd Gethsemane, yn nghysgod pa rai y treuliodd Iesu oriau olaf cyfynder ei enaid.

Ond er fod y pwnc dan sylw yn meddu y fath ddylanwad a'r fath swyn, y mae, fe ddichon, yn amgylchynedig â mwy o anhawsder nac unrhyw bwnc ysgrythyrol arall. Y mae yr anhawsder yn tarddu o ddwy ffynonell, yn gyntaf, diffyg desgrifiadau a chyfeiriadau manol at y llysiau y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Yn ail, y mae sefyllfa gwledydd y Bibl hyd yn hyn wedi bod yn attalfa ar ymchwiliad priodol i'w hanesyddiaeth naturiol.

O barthed i'r cyntaf gallwn sylwi nad oes yr un dosparth wedi derbyn mwy o gynorthwy oddiwrth natur er gosod allan eu gwaith nac ysgrifenwyr y Bibl. Yr oeddynt yn byw megis yn ngwyneb natur, yn mhlith eu golygfeydd ardderchocaf, ac mewn sefyllfa o gymdeithas a'u harweiniai i sylwi, yn hytrach nac i feddwl, ac ystyried. Treuliodd y rhan fwyaf o honynt eu dyddiau boreuaf yn awelon pur y maes yn nghyflawniad o'u swyddi o fugeiliaid neu ffermwyr. Meddwl ac ewyllys ddwyfol iddynt hwy ydoedd gwreiddyn, canol, a diwedd pob peth. Ystyrient natur yn gysgod o rywbeth uwch a gwell. Y byd gweledig yn bortreiad o'r ysbrydol, yn ddrych yn mha un y gwelant berffeithderau y Duwdod. Felly nid yw yr holl gyfoeth barddonol a fenthycent oddiwrth natur yn cael ei arfer ond yn unig fel enghraifft, neu gyfeiriad, o'r holl wrthddrychau a ddefnyddir gan ysgrifenwyr y Bibl. Nid oes yr un yn cael ei ddesgrifio o herwydd unrhyw ogoniant, neu dlysni perthynol iddo ei hunan. Nid

oes yr un olygfa yn cael ei darlunio ganddynt o herwydd yr hyn ag sydd ynddi yn neillduol. Nid oedd beirdd y Bibl fel beirdd diweddar yn ymeangu ac ymledu eu darluniadau o natur, ond yn brysio oddiwrth y cysgod at y sylwedd, oddiwrth yr enghraifft at yr hyn a amcanai osod allan. Y maent yn cyfeirio at goedydd, blodau, bryniau, ac afonydd, yn unig er mwyn gosod allan eu mheddyliau uchel am Dduw, neu ynte fel iaith ffigurol ymddiried, prophwydoliaeth, neu weddi; braidd un amser o herwydd unrhyw hynodrwydd neu neillduolrwydd perthynol iddynt eu hunain. Am hyny y mae cyfeiriadau yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn fyr ac yn amherffaith, yn enwedig gyda golwg ar lysiau a phlanhigion. Gwir eu bod yn aml yn crybwyll eu henwau; ond y mae eu henwau i ni yn awr yn debyg i ryw ysgrif sanctaidd, allwedd deongliad pa un sydd wedi ei cholli yn nhreighad oesoedd. Ac nid ydyw ymgais cyfieithwyr i gael allan yr hyn sydd yn gyfystyr iddynt ond megis ymbalfalu yn y tywyllwch. Y mae llenyddiaeth gelfyddydol yr Iuddewon wedi ei cholli. Traethawd Solomon ar lysiau a choedydd nid oes gobaith cael gafael ynddo mwy. Y mae Kiriath-sepher, neu ddinas y llyfrau, tref Canaaneaidd a gymerwyd gan Joshua, wedi diflanu. Dim ond eu henw yn unig sydd yn aros.

Ni wnaeth yr Iuddewon ychwaith ond ychydig tuag at wneyd y golled i fyny. Ni fynent ymwneyd dim a chenhedloedd eraill. Diystyrent bob gwybodaeth, ond gwybodaeth o'r gyfraith a thraddodiadau y Tadau. Y mae Targumau Onkelos a Jonathan Ben Uziel yn taflu llawer o oleuni esboniadol ar yr Hen Destament, ond fawr o ddim ar lysieuaeth ysgrythyrol. Y mae Josephus a Philo Judæus yn cyfeirio at ryw ychydig wrthrychau o fawr bwys Yr un pethau ellir ddweyd am yr holl ysgrifenwyr Rabbinaidd sydd wedi ymdrechu esbonio yr Ysgrythyrau o'r dechreu hyd yn awr. Pan y dygwydda enw llysieuyn nad ydyw yn bosibl i'r esboniwr fyned heibio iddo, y mae yn rhyddhau ei hunan o'r dyryswch trwy ddweyd "math o lysieuyn neu bren ydyw," neu ynte trwy ddweyd "nid hawdd iawn ydyw dweyd pa beth yw."

Yr ail anhawsder sydd ar ffordd iawn dealldwriaeth o lysieuyddiaeth ysgrythyrol ydyw, yr anhawsder o ymdeithio trwy a chwilio y wlad. Y mae rhyw lu, braidd afrifed, yn ymdeithio yn y tir sanctaidd bob blwyddyn, a hyny o bob parth o Ewrop; rhai er mwyn gweled, rhai er mwyn elw, a rhai er mwyn gwybodaeth; ond yr oll o honynt megis yn ymdeithio yn ol traed eu gilydd. Ychydig o honynt sydd yn beiddio myned allan o'r hen ffordd ddiogel, ac union.

Hefyd y mae sefyllfa gynhyrfus y wlad yn eu gwneyd yn beryglus i chwilio am flodau, planhigion, a llysiau; ac y mae y ffaith fod yn ofynol i un, faint bynag all fod eu wybodaeth o'r Hebraeg, y Syriaeg, a'r Arabaeg, hurio lluaws o ganlynwyr, yn gwneyd llysieuaeth Palestine yn beth rhy ddrud. O dan lywodraeth ddifywyd a thrawsarglwyddiaeth y Twrc, y mae pob peth yn gwywo—masnach, a chelfyddyd, a chysur ei ddeiliaid. Y mae y ffyrdd yn orlawn o ladron—Bedouin yr anialwch yn aml yn mynu rhan o gyfoeth eu ymwelwyr. Felly tra y mae dynion yn gyfarwydd â'r llysiau a addurnant uchelfanau gwylltaf yr Andes, a'r Himalaya, y mae llysieuaeth Palestina i raddau helaeth yn anadnabyddus.

Ni gawn yn awr nodi rhai ffeithiau cyssylltiedig â'r pwnc ac a pha rai y mae lluaws o ymwelwyr y Tir Sanctaidd yn gyfarwydd; ond i wneyd hyn y mae yn rhaid i ni roddi desgrifiad byr o ddaeareg y wlad, o herwydd y mae yn ddigon hysbys fod arwynebedd gwlad yn dylanwadu ar y llysiau sydd yn tyfu o honi. Y mae arwynebedd Palestine yn hynod. Nid oes yr un wlad yn y byd o'i mhaint wedi bod yn wrthrych cymaint o gynhyrfiadau daearegol. Y mae ei daear wedi ymddyrchafu, wedi ymsuddo, ac wedi ymgymysgu yn y fath fodd, fel y mae anhawdd dyweyd mewn llawer man beth sydd uchaf, neu beth sydd isaf. Granite, careg galch, a trap, ydyw cyfansoddiad mwyaf cyffredin daear Palestine: ond ymddangosant fel pe buasent wedi eu harllwys yn ddiofal, allan o gawell rhyw gawr, ac wedi eu gadael yn y fan y disgynasant. Yn mhob man y mae olion cynhyrfiadau, a drylliadau ofnadwy, a chyda hyny arwyddion o ymffurfiad newydd ac adfeilion yr hen. Digwydd hyn yn enwedig yn rhanau mwyaf deheuol y wlad. Cyferfydd y teithiwr yn y Tir Sanctaidd, yn aml â'r hyn a elwir yn Saesonaeg, *Table Lands*, sef, darnau meithion o dir uchel, a gwastad, ond bob amser yn amgylchynedig gan greigiau uchel ac aruthr, megis wedi eu creu i brofi nerth amynedd y rhai a fynant ddringo i fyny iddynt. Pryd arall y mae dyffrynoedd isel, a gwastad, ond y rhai hyn hefyd yn cael eu hamgau gan greigiau fel nad ydyw yn bossibl myned o.honynt heb ddringo. Nid oes yno, fel yn ein gwlad ni, fynyddoedd yn ymlethu yn raddol i'r dyffrynoedd; dim cydblethiad ucheldir, ac iseldir, yr hyn sydd yn aml, os nad bob amser, yn elfen hanfodol prydferthwch gwlad. Ond y mae yno fynyddoedd diffrwyth yn ymgyfodi yn syth, neu yntau ddyffrynoedd breision, gwastad, ond mor wastad a llyfn ac i wneyd i'r daearegydd feddwl eu bod unwaith wedi bod yn welyau llynoedd mawr, neu foroedd canol-dirawl. Y mae fod arwynebedd Palestine yn gyfryw, yn dylanwadu a gwneyd ei llysiau yn ddosparthiadau gwahanol; neu i ddweyd, fe ddichon, yn amlycach, y mae gwahanol ddosparthiadau llysieuol y wlad yn cael eu cadw yn fwy ar eu penau eu hunain. Nid oes gan flodau neu lysiau y dyffryn fantais i ymgymysgu a blodau yr ucheldir. Y mae y cyfnewidiad o un i'r llall yn rhy ddisymwth, ac felly yn cyfyngu ymlediad planhigion llysieuol.

Er mai gwlad fynyddig ydyw Palestine, y mae iddi wahanol hinsoddau ffafriol i dyfiant amryw ddosparthiadau o blanhigion. Y mae ei gogleddbarth oddeutu deng mil o droedfeddu yn uwch na môr y *Canoldir*, tra y mae ei deheubarth eithaf yn fil tri chant a deugain o droedfeddi islaw iddo. Y mae felly ei hinsawdd gogleddol yn dymherus, a'i hinsawdd deheuol yn agos mor boeth a'r eiddo y trofanau. Rhwng yr eithafion a nodwyd y mae hinsoddau gwahanol leoedd yn gwahaniaethu cymaint oddiwrth eu gilydd mewn ardymheredd ag y gwna ein gwlad ni a Madeira.

Ar y gwastadeddau, yn y dyffrynoedd, ar hyd terfynau y môr, yn yr anialwch gorllewinol, a'r anialwch deheuol, y mae yr haf yn hynod boeth a blinderus; ond yn rhanau mynyddig y wlad ar yr un tymhor, y mae yr awyr yn dyner, y nos yn fwyn-oeraidd a gwlithog. Y mae Palestine yn gorwedd oddi allan i'r trofan-gylch (*Tropical zone*), lle y mae planhigion byth-wyrdd yn aml, ond y balmwydden, yn diflanu. Y mae eira yn syrthio yn aml yn y gogledd, er nad ydyw yn aros ond ychydig amser ar

y ddaear. O fis Mawrth i Hydref, anfynych, os un amser y bydd yn gwlawio, y mae yr wybren yn ddigwmwl a'r haul yn arllwys ei belydrau poethion i lawr gyda nerth, braidd annioddefol, gan losgi i fyny bob peth gwyrddlas, sychu ffynonau a nentydd bychain, gan roddi i'r wlad olwg o ddiffrwythder a sychder gofidus i'r golwg. O Hydref i Mawrth y mae mwy neu lai o wlaw yn disgyn, ond y gwlaw trymaf yn Tachwedd a Rhagfyr. Y mae y gwynt sydd yn chwythu tros uchelderau rhewllyd Lebanon yn oer ac yn dreiddgar, a'r un sydd yn chwythu tros anialwch Arabia yn boeth ac yn drymaidd. Y mae y dwyrein-wynt yn heintus ac yn niweidiol i fywyd anifail a llysiau. Y gwynt gorllewinol ydyw yr unig un sydd yn ffafriol i lysiau. Y mae yn dyfod o fôr y Canoldir â'i loned o wlaw balmaidd, ac yn ei daenu ar hyd y mynyddoedd yn ystod misoedd y gauaf. Yr amser hwnw y mae y gwyntoedd yma yn digwydd. I. T. W.

(I'w barhau.)

Y MORWR MEWN YSTOROM.

Wrth olau can y lloer, llusern deg hwyr,
Yr hwyliai'r morwr dewr mewn pur dawelwch llwyr,
Ei fynwes gun a edmygai waith ei Iôr,
Gan weniadau'r ser yn "arian byw y môr."
Fel doldir eang 'r edrychai'r lli heb don,
A'r ser fel meillion yn addurno ei fron;
'R awel balmaidd deithai'n araf ac yn fwyn,
Fel pe am ymorffwyso byth 'nghol fath swyn.
A'r llong fel pe y byddai'n llesmeirio gan
Y fath olygfa hardd,—ymgrwydrai'n wan.
Uwch ben y drych y morwr safai yn syn
A'i enaid mawr a edmygai Dduw y "llyn."
Trem ar y fath drem enynai fywiol dân
O fawl drwy'i fynwes, ac mewn uchelwych gân,
Addolai Iôn,—yr Hwn a siai'r don
I gysgu,—Creawdwr yr olygfa hon.
Nid ffug addoliant roddai efe mewn iaith
Ond urddasolrwydd Duw, deimlai yn Ei waith.
Llwyr anghofiai bob peth ond yr Ior a'i ras
'R adeg hon, gan syllu ar yr wybren las,
Dyferynau cain o'i bur ogoniant Ef,
A welai yn harddu mantell gun y nef.

Ond ow! tra syllai fry,
Rhyw sydyn gyfnewidiad
A welai, drwy y nen;
Aeth braw drwy fyw ei deimlad;
Gwnai'r cymyl ymgrynhoi
Gan ddwys gofleidio 'u gilydd,
A chuddiai'u mentyll tew
Brydferthwch nef ysplenydd.

Ha, meddai'n harwr dewr,
Mae erchyll storm ar ddyfod,
Arwyddion sy'n dyweyd
"Y morwr bydd yn barod;"

O! na chawn, meddai Ef,
Pan ddel y drycin garw,
Oleuni seren fwyn
I loni fy ngrudd welw.

Ond na, fe deimlai fod
Echruslon symydiadau
Ar ddod, nas medrai'r ser,
Ddal arnynt o'u claer seddau;
Ac yna gwrthban du
A fachwyd drwy'r wybrenau
Rhag ofn llewygai'r nef
Yn ngwydd y cryf elfenau.

Tywyllwch oedd pryd hyn,
A phrudd ddistawrwydd cyson,
Tros wyneb y môr maith,
Nes ofnai'r dewra'i galon;
Mewn cyngrair cwrddai'r holl
Elfenau cyn ymosod,
Y naill ar draws y llall,
Fel eirth neu wancus lewod.

Och! dyna fellten erch,
Drwy'r cwmwl yn ymdorchi,
Fel sarff,—a'r daran gref
O'i hol,—mae'r môr yn berwi!
Yn sydyn rhuthrai'r gwynt,
Fel meddwyn gwallgofedig,
Gan daro muriau'r lli
A'i ysgwydd gref ac ysig!

Ow! dacw'r morwr cun,
A'i long fel pluen weithian,
Yn llaw'r elfenau broch,
Heb obaith hedd o unman;
Tan ael y fellten werdd
Y gwelai angeu'n tremu,
A chlywai'i greulon lais,
Trwy'r daran yn parablu.

Fe'i lluchir weithiau'i lawr
I safn y berwawg donau,
Fe'i hwtir eilwaith 'nol
Yn wlyb o wddf angeu!
'Nol dwys ymdrechion maith,
A bywyd mae'n ffarwelio,
Tra mae'r elfenau llym
A'u gilydd yn ymfrwydro.

'Nol iddo fel yma roi fynydd am fyw
Ffarwelio a bywyd a'i fynwes yn friw,
Daeth adgof i'w fynwes a rhodd iddo sen,
Fe gofiodd ei briod yn hen Walia Wen:—
Ac hefyd er dolur ei dirion blant mad
A'u mwyniant orweddai ar fywyd eu tad:
Ar hyn gyda dewder ail malfai'n y llyw
Ymdrechai'n egniol ag angeu am fyw.

Er cywch oedd y tonau aruthrol o'u gwmpas,
Er cryfed y gwyntoedd a'i curai bob tu,
Er mellt yn ymsaethu, er clych y taranau,
Adferodd ei obaith,—ymdrechai yn hy;
Llaw ffydd a afaelai yn Iôr y bydysawd,
Tra llaw ei ddyledswydd yn hwylio y cwmpawd,
Trwy ymdrech a gweddi gorchfygodd y *dynsawd*
Y dicaf elfenau ar wyneb y lli.

Post Office, New Tredegar. IOAN DDEWR.

MYFYRIWR.—Mae'r adnod y cyfeiriwch atti, ac am yr hon y gofynwch ein barn, yn 2 Thessal. i. 9. "Y rhai a ddioddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef." Pwy ydynt i ddioddef y gospedigaeth? "Y sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufyddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist." Y rhai hefyd oeddynt yn blino'r eglwys yn Thessalonica. Y gospedigaeth yw "dinystr tragwyddol." Gofynwch beth sydd i'w ddeall yma wrth "dinystr tragwyddol." Yr ydym ni yn cymmeryd y gair *dinystr* yn yr adnod hon, fel yn y tri man arall yn y Testament Newydd lle y cyfarfyddir ag ef, yn ei ystyr gyffredin, sef yn yr ystyr, debygem, y deallai yr Apostol y gair. (1 Cor. v. 5; 1 Thessal. v. 3; 1 Tim. vi. 9). Chwi wyddoch feddwl y gair Cymraeg dinystr, a'r gair Groeg *olethros*, "a dinystr tragwyddol." Os dealler y ddau air yma yn eu hystyr sathredig, ac nid oes un rheswm paham na ddylem eu deall yn yr ystyr hyn, rhaid i ni gredu mai barn yr Apostol oedd y byddai i'r annuwiol gael eu diddymu neu eu dileu am byth. Cofiwch, nid *eu poeni am byth*. Nid yw yn ymddangos y gwyddai yr Apostol ddim am athrawiaeth y poenau tragwyddol. Athrawiaeth ddiweddarach ydyw hon ag sydd wedi tarddu oddiar gamsynied meddwl rhyw ychydig o frawddegau ysgrythyrol. Nid ymddengys y gwyddai yr Apostol ddim ychwaith am athrawiaeth yr adferiad, gan nad faint o wir sydd yn yr athrawiaeth honno. Cofiwch, nid ydym ni yn ambeu nac yn cadarnhau gwirionedd yr athrawiaeth o ddiddymiad yr annuwiol, ond dyweyd beth ydym yn ddeall oedd barn yr Apostol ar y pen. Dywed yn Philip. iii. 11, "Os mewn un modd y gallwn gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw," fel pe credasai mai braint y cyfiawnion yn unig fydd ail fywyd. Hefyd, ai nid dyma athrawiaeth y Beibl yn gyffredin y'nghylch cosp yr annuwiol, hynny yw, os y cymmerwn eiriau yn eu synwyr priodol? Mae yn wir fod esbonwyr yn rhoddi ystyr arddansoddawl *(metaphysical)* i'r geiriau *marw* a *marwolaeth* pan y cyfarfyddir a hwynt mewn cyssylltiad a chosp yr annuwiol, ond pwy hawl sydd ganddynt i wneyd hyny? Beth feddyliant wrth *farw moesol* a *marw ysprydol?* Onid brawddegau tywyll ydyw y rhai hyn? A chymeryd geiriau yn eu hystyr priodol, yn ol barn yr ysgrifenwyr sanctaidd, y mae'r annuwiol i *farw*—i ddarfod byw. Ni wyddent hwy am un farwolaeth arall. Pan ddywedir *marw i bechod*, meddylir, darfod byw i bechod, neu mewn geiriau eraill, pechod yn cael ei ladd ynom. Yn mha gyssylltiad bynag y cyfarfyddir â'r geiriau *marw* a *marwolaeth*, eu hystyr yn wastad yw *darfod byw*, pa un a egwyddor neu berson sydd i ddeall. "A phwy bynag sydd yn tyw ac

yn credu ynof fi," medd ein Harglwydd, "ni bydd *marw yn dragywydd*;" o ganlyniad bydd i'r rhai na sydd yn credu ynddo i farw, nid yn y bywyd hwn, wrth gwrs, feddylia. "Hwn yw'r bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwytao dyn o hono, ac na byddo *marw*," hyny yw, yn y bywyd i ddôd. "Canys os byw ydych yn ol y cnawd," medd yr Apostol, *meirw* fyddwch," hyny yw, yn y byd nesaf. "Cyflog pechod yw *marwolaeth*. Yn ol yr hyn a ddarllenwn yn y Beibl, hefyd, mae yn bur debyg, y credai rhai o'r ysgrifenwyr sanctaidd, y bydd i'r anuwiol gael eu hadgyfodi—y bydd iddynt ddyfod i "adgyfodiad barn," i'w cospi dros ryw amser, ac yna i farw am byth. Ond pallai amser i ni ychwanegu yn bresenol. Pa fodd mae cyssoni hyn â thadoldeb Duw, sydd bwnc arall. Cofiwch, nid ydym yn dywedyd mai dymu ein barn ni y'nghylch cosp yr anuwiol, sef diddymdra tragwyddol; ond dywedyd ydym beth ymddengys i ni yw ystyr y fath frawddegau ysgrythyrol ag y cyfeiriasom attynt. Un sylw ychwanegol. Nid ydym yn ystyried fod natur cosp yr anuwiol yn y byd i ddôd yn bwnc o ddatguddiad dwyfol. Mae yn sicr fod cosp ar gyfer yr anuwiol gan nad beth a fydd. Bydd y gosp hefyd y fath ag y dylai gweithredwyr anwiredd ddychrynu rhagddi Un o brif ddybenion danfoniad Crist i'r byd yw rhoddi amcanion mwy goruchel i ddyn nag a feddai'r byd o'r blaen, a hyny trwy egluro cariad y Tad anfeidrol yn ei ragluniaeth yn darparu y pethau sydd oreu i berffeithio ein nhatur gyda golwg i'n paratoi i ddedwyddwch y bywyd tragwyddol, yr hwn sydd wedi cael ei ddwyn i'r amlwg trwy farwolaeth ac adgyfodiad yr Iesu. Am hyny beth bynag yw meddwl yr ysgrifenwyr santaidd am gosp yr anuwiol, yr ydym yn cael ein gadael at ein rhyddid i ffurfio meddyliau am dani, ac am ei dyben, yn unol â'r hyn a ystyriwn sydd gysson ag anfeidrol ddoethineb a chariad.

PENNILLION

A DRADDODWYD AR WYL DE HEN DY CWRDD ABERDAR, ION. 6FED, 1868.

Peth swynol iawn dros ben i mi,
Yw chwyrndroellawg llym y lli;
Mwy swynawl fyth i fawr a mân
Yw côr y wig yn dyrchu cân.

Tra swynawl hefyd yn ein plith,
I'w gwledd o dê, a bara brith;
Rianod heirdd, a'u gwenau llon,
A swynant bawb a ddel ger bron.

Melusach fyth, rhaid adde'r gwir,
Yw gwledd i'r meddwl eang dir;
Trwy hwn mae dyn yn fod i fyw
Uwch law pob peth, yng ngread Duw.

Rhaid rhoi i'r meddwl fwydydd iawn,
I'w arwain i lawenydd llawn;
Rhag myn'd ar ol rhyw ffoledd ffull,
A llygredigaeth lawer dull.

Chwi ie'ngctyd hardd o bryd a gwedd,
A gobaith penaf pob rhyw wledd,
A blodau'r oes, gwnawn bleidio'r gwir
A'ch dwg i wir ogoniant hir.

Mae temtasiynau amryw fyrdd,
I'ch denu draw, a maglu'ch ffyrdd;
Yn rhwydd y cewch weniaethol fost,
A'ch dwyn i lynclyn, trymder tost.

Llwyr wylied rhagddynt fo eich rhan,
Cyn greddfont yn y meddwl gwan;
Na roddwch le i wyniau ffol,
Rhag gadael gwenwyn ar ei ol.

Ymrowch am rinwedd yn y fron,
Gwna hwn eich dal uwchlaw y don;
A thrwsio'r galon, dyna ran,
A gwyd eich meddwl trist i'r lan.

Gochelwch rwysgedd balch y byd,
Sy'n denu canoedd at ei wyd,
I garu'r byd a'i felus chwant,
A dwyn i'ch plith ofidiau gant.

Ar wisg tu faes na rowch eich bryd,
Gochelwch rysedd parch y byd;
Y wisg dufewnol, calon bur,
A'ch deil i'r lan, uwch poen a chur.

Am Haman gynt, o cofiwch hyn,
Y balchaidd gur, mae'n hanes syn;
Mae'n rhybudd i'n sydd ar ei ol,
Rhag syrthio i'r un dynged ffol.

Arferwch bwyll, a cheisiwch fod,
Yn cyrchu beunydd at y nod,
A bair iachad i'r enaid trist,
Trwy ganlyn siampl Iesu Grist.

Ym moreu'ch hoes o ceisiwch gael,
Y trysor goreu yn ddiffael:
A saif yn gadarn fel y graig,
Heb syflyd dim, er tonau'r aig.

Yn nyddiau ie'ngctyd eirian wawr,
Mae'ch gofio eich Creawdwr mawr;
Cyn del y dyddiau blinion certh,
Ac henaint i wanhau eich nerth.

Mae'r ffordd yn deg, o'ch blaen y mae,
I'ch ddianc rhag pob gwyn a gwae;
Ffordd heddwch a dedwyddwch yw,
Ffordd fawr cyfiawnder, der ein Duw.

O rhoddwch glust byth er eich clod,
Yn awr yw'r amser i chwi dd'od,
Dan iau ein hathraw Iesu Grist,
A dwyn ei groes, na fyddwch drist.

O p'am aroswch unrhyw ddydd,
Nis gwyddoch 'fory beth a fydd;
Heddyw yw'r amser da, ymrowch,
Yn filwyr Iesu'n fuan dowch.

Ar ddechreu'r flwyddyn newydd hon,
Molianwn Dduw ag enaid llon;
Ac wrth ei waith nefolaidd ef.
Ymdrechwn fwy a'n ffydd yn gref.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

MYFYRDOD AR WEITHREDOEDD Y CREAWDWR.

Deffroa fy Awen, paid hepian a chysgu,
Mae'r amser yn nesu y cei gysgu o hyd,
Yng nghrombil y ddaear,—pob nwyd wedi dattod,
Y clustiau yn fyddar, a'r tafod yn fud.

Rho glod yn gynghanedd i Grewr y bydoedd,
Ei fawredd, a'i allu, a'i gariad di-feth;
Efe yw dechreuol achosydd y cwbl,
Doethineb yn amlwg i'w wel'd ar bob peth.

Y broydd a'r bryniau o anian yn tarddu,
Ac amryw lysieuau o liw ac o lun;
I borthi creaduriaid yn fychain a mawrion
Yn ol eu naturiaeth yn gystal a dyn.

Digofaint y Duwdod 'does neb wedi'i ganfod,
Ond cariad yn llifo fel trenllif y môr;
Er chwilio'r greadigaeth nis gellir cael allan
Un bod all amgyffred am gariad ein Ior.

Mae'n gariad diddechreu ac yna doethineb,
Ei allu'n anfeidrol o hono ei hun;
Gwybodaeth difesur ' roi cyfraith i natur,
Heb eisiau cael cynghor na chymhorth un dyn.

Mae pob priodoledd o eiddo Duw'n gadarn,
Ei gynghor diwyrgam yn sefyll yn syth;
Ei 'wyllys ni phalla, mae'n siwr o'i chyflawnu,
Mae'i air yn wirionedd na syflir e byth.

Trwy'r eang ffurfafen, er maint yw y bydoedd,
Mae'n gyson heb nesu un mymryn o'i le,
Yr haul yn ganolbwynt, a'r bydoedd a dreiglant,
Trwy oll o'r gyfundrefn, fel mynodd efe.

Er maint yw eu pellder mae'n trefnu ym mhellach,
Er pelled cyrdd anian, mae Duw'r oehr draw;
Yn llanw'r eangder yn hollol ei hunan,
Yn cynal y cyfan ar gledr ei law.

Peth rhyfedd i ddynion erioed ddychymygu
Fod tri o'r fath hyny'n ogyfawch a'r llall,
Mae un yn llawn cystal, mae'n ormod i ddirnad,
P'am ceisiwn ein hafraid, O byddwn yn gall.

CRWYDRYN.

CWRDD CWARTER Y LLWYN.—Cynhaliwyd Cwrdd Cwarter y Pasg gan Undodiaid y Deheubarth eleni yn Llwynrhydowen, plwyf Llandyssul, ar ddydd Mercher, Mawrth 31, a dydd Iau, Ebrill 1af. Am haner awr wedi dau dydd Mercher, yn y Llwyn, dechreuodd Mr. Evan Thomas, Myfyriwr, a phregethodd y Parch. J. Evans, Gellionen, ar Matt. xviii. 3, ac Actau xv. 3, a Proff. Evans, Caerfyrddin, ar Rhuf. i. 16. Am haner awr wedi chwech, cynhaliwyd Cwrdd yn Llandyssul, a bu y brodyr y Wesleyaid mor Grist'nogol a rhoi benthyg ei Capel ar haner gair.

Yma dechreuwyd gan y Parch. Proff. Evans, a phregethwyd gan y Parchedigion J. T. Williams, Cefncoedycymer, ar Iago i. 25, ac E. W. Lloyd, Cwmbach, ar Iago ii. 13. Dranoeth, yr oedd yr hin yn braf, ac yn brydlawn yr oedd Capel eang y Llwyn yn orlawn o wrandawyr astud. Ni cnofiwn i ni weled mwy o awydd am ddal ar bob gair a ddeuai o enau y pregethwyr erioed na'r bore hwn. Aeth y Parch. R. Jenkins, o Aberdâr, trwy y rhan ddefosiynol o'r gwasanaeth, a dewisodd fel testun y bregeth, Luc xv. 32, "A fu golledig ac a gaed." Gallasai yr hen bobl (ond o mor ychydig sydd wedi eu gadael ar dir y byw) feddwl fod amser yr hen batriarch o Gastellhywel wedi d'od yn ol, canys "y mab afradlawn" oedd ei hoff bwnc ef. Ni cheisiwn ni roi desgrifiad o'r bregeth hon. Diau y cofir am dani gan rai cannoedd tra'n fyw. Gwedi i Mr. Jones derfynu y cyfarfod trwy weddi, awd ym mlaen gyda gwaith y gynhadledd. Ar y testun "Rhagluniaeth" llefarwyd gan y Parchedigion T. J. Griffiths, Cribin, John Davies, Alltyplacca, J. T. Williams, Cefn, T. Thomas. Pantydefaid, a neb arall, os yw ein cof yn gywir. Trueni mawr nad yw ein *laymen* byth nemawr yn dweyd gair. Achwynant ar y dweyd a fu, nad oedd i'r pwrpas, ac yn ddigon dwfn ac athronyddol, a hyn a'r llall; ond, yn enw pob cymhelliad, paham na siaradent ar y pryd, pe ond yn unig er dangos y manau dyrus i'r pregethwyr? Teimlid fod y pwnc hwn yn eang iawn, a bod cymaint yn aros i gael ei dweyd arno, fel y cynygiodd y Parch. T. Thomas ei fod i gael ei drafod yn y cwrdd blynyddol yn y Nghapelygroes. Gobeithio y bydd ein *laymen* wedi paratoi yn dda erbyn hyny. Os na wnewch, peidiwch achwyn byth ond hyny. Gofynwch, yn mhlith pethau eraill ofyniadau a roddant drwbwl i chwi, a diau y cynygir eu hateb. Yn y prydnawn dechreuodd y Parch. R. C. Jones, Cribin, a phregethodd y Parch J. T. Williams ar 1 Pedr ii., 21, a E. W. Lloyd ar Act v., 29. Fel hyn y terfynodd cwrdd melus ac adeiladol iawn. Dangosodd cyfeillion o wahanol enwadau crefyddol lawer o garedigrwydd a pharodrwydd i gynorthwyo gyda'r cyrddau hyn. Diolch yn fawr i chwi oll. Mae genym dri sylw cyn tewi.

1. Cawsom bregethau rhagorol. Nid wyf yn cofio am well gyda'u gilydd. Ond rhag i neb feddwl mai gwenieithio ydwyf, dyweddaf yn y fan hon mai diflyg ein cyrddau cwarter ni yw rhy fach o'r elfen boblogaidd. Ni thal y papur ddim yn wir i bregethu yn rhy faith o hono. Rhaid cael mwy o laeth a bwyd gwan i'r gwrandawyr. Bydd cymaint o eisieu paratoi ag yn awr, mwy os dim: mae pregeth dda *heb* papur yn costio mwy na phregeth dda *ar* papur.

2. Mae rhy fach o gyfrinach rhyngom a'n gilydd ar adegau o gyfarfod fel hyn. Mae genym ninau achos, a helynt i'r achos hwnw, a dylem drefnu rhyw foddion i hyspysu ein gilydd o bob peth perthynol i wir lwyddiant ac aflwyddiant yn ein mysg. Mae yn dda cael cwrdd fel y mae hi, ond onid ellid dwyn ein cyrddau i atteb gwell dyben? Nid pregethu a chynadleddu, a chiniawa, a chyfnewid ychydig ymholiadau cyfeillgar yn unig, ond fod genym adeg yn cael ei neillduo i weinidogion eistedd mewn cyfrinach, dyweder, ac adeg hefyd i weinidogion a phawb eraill o'r eglwysi a fynont i gydeistedd i ymgomio ynghylch materion crefyddol.

3. Yr oedd y Golygydd wedi ceisio genyf i roi tipyn o hanes yr achos yn y Llwyn. Caraswn yn fawr wneyd, ond methais a chasglu ffeithiau at eu gilydd yn ddigon trefnus, a pharatoi dim a fuasai o werth parhaus. Nid wyf yn meddwl colli golwg ar hyn. Ond y tro hwn mae y defnyddiau yn rhy wasgaredig, a'r adeg yn rhy fyr.

W. Thomas.

MARWOLAETHAU.

Ar y 27ain o Chwefror, yn mhen chwech awr wedi iddo gael niwed gan ddram, wrth groesi incline Dowlais, Evan Owen, crydd, o bentref Felinfach, ger Ystrad, Ceredigion, yn 82 oed. Gadawodd weddw a naw o blant mewn tristwch trwm o herwydd ei golli mor sydyn mewn modd llwyr anysgwyliadwy ac yn mhell o'i artref. Dangoswyd cydymdeimlad dwys gan bawb a'i hadwaenai, ac yr oedd yn

lled adnabyddus a chanddo lawer o gyfeillion Teilwng yw sylwi mai Undodwr selog ydoedd, ac iddo fod yn aelod parchus yn yr Ystrad a'r Rhydygwin, am flynyddau lawer. Meddai ar ddawn canu a llais na chlywir yn gyffredin o'i fath, a gwnaeth ddefnydd da o'i ddawn trwy flaenori y canu dros fwy na hanner can mlynedd. Bu yn hynod o ddefnyddiol hefyd i ddysgu dynion ieuainc i ganu mewn gwahanol ardaloedd, ac yn mhlith gwahanol enwadau crefyddol. Os y dygwyddai fod gair yn y dôn fyddai yn ddysgu yn groes i'w farn, megis ar Dduwdod Crist neu'r Iawn, gwrthodai ef ar unwaith. Lle byddai efe yn bresenol, ni theimlid byth wendid yn y canu. Rhoddai nerth a bywyd ynddo pan fyddai wanaf, a phe dygwyddai i ryw un, wrth ddechreu, golli y dôn neu y mesur, cymhwysai Evan y diffyg yn lled fuan. Byddai ei lais yn ddigon i ddwyn y gynulleidfa i gyd ar ei ol. Nid oedd braidd un angladd yn y gymydogaeth na chlywid ei lais ef yno, nac un cwrdd ychwaith lle y byddai gweinidog Undodaidd yn pregethu. Yn marwolaeth Evan Owen collwyd un a fu yn ddefyddiol iawn yn ei gylch, a theimlir hiraeth cyffredin yn y gymydogaeth ar ei ol. Yr oedd yn hoff iawn o'r hen weinidogion, yn enwedig o Mr. James, o'r Gellionen. Ar ddydd ei angladd, sef y 4 o Fawrth, daeth torf liosog yn nghyd i'w dy yn mhentref Felinfach. Cyn cychwyn pregethodd y Parch. W. Rees, o Rhydygwin, oddiwrth Job xix. 21. Claddwyd ef yn mynwent Dihewid yn mhlith ei dylwyth. Nerth gaffo ei weddw a'i blant yn eu galar.

Ar yr 28ain o Chwefror, yn bur sydyn, yn nhy Jenkin J. Jones, Ysw., o'r Llaethliw, John Jones, o Rydygwin, yn 57 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn diniwed, o feddwl galluog, ac yn ysgolhaig da. Gadawodd ddwy chwaer a neiaint i alaru ar ei ol. Bu yn dysgu ieuenctyd lawer o flynyddau yn yr Ystrad a'r Cribin, ac yn ddefnyddiol iawn yn y gymydogaeth i lawer fel ysgrifenydd, a chafodd yr ardal golled ar ei ol. Ar ddydd ei angladd daeth tyrfa liosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Cyn cychwyn o'r Llaethliw pregethodd y Parch W. Rees, o'r Rhydygwin, oddiwrth Diar. xxi. 1, a chlydwyd y corph i fynwent Ystrad, i orphwys mewn heddwch gyda'i deidiau.

Ar y 5ed o Fawrth, gorphenodd Margaret Williams, o'r Cribin (mam "Dewi Hefin"), ei thaith ddaearol, yn 85 oed. Ar y 7fed, cladwyd ei chorph, gan dorf fawr i fynwent Alltyplaca. Ar yr aclysur pregethodd y Parch. Rees Jones, o'r Cribin, oddiwrth Salm cii. 11, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchdigion T. J. Griffiths, J. Davies, a D. Davies, Pensarnfawr. Ymddengys i ni mai hi oedd y diweddaf o hen aelodau eglwys y Cribin, a bod ei symudiad yn galw'n uchel ar y dô sydd ar ol, i ddeffroi, ac ymdrechu cynnal i fynu, yn effeithiol, yr achos ag yr ymdrechodd eu tadau gymaint drosto.

Ar yr 11eg o Fawrth, yn 67 mlwydd oed, bu farw Mrs. Daniel, Caeglas, ger Llanbedr. Y dydd Mercher canlynol daeth lluaws i'r angladd, a chladdwyd hi yn mynwent Llanwnen. Pregethodd y Parch. J. Davies, oddiwrth Salm cxix. 54, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchedigion T. Thomas a Rees Jones. Bu yr ymadawedig yn aelod ffyddlon am flynyddoedd lawer yn Alltyplaca, gan harddnodi ei phroffes ag ymddygiad rhinweddol. "Hael ei chalon, rhwydd ei rhoddion; heb ddichellion gweigion gau," ydoedd hi; a theimlir colled a galar ar ei hol gan lawer, yn enwedig gan ei phriod oedranus a'i phlant anwyl. Ond na foed iddynt hwythau i alaru'n anghymedrol ar ei hol, oblegid y mae ganddynt sail i gredu fod yr hyn sydd mewn ymddangosiad wedi bod yn golled iddynt hwy, yn elw iddi hi.

Ar y 26 o Fawrth, ar ol hir gystudd a blynyddau aml o afiechyd, David Davies, gweydd, o Ddolbwba, ger Talsarn, yn 62 oed. Gadawodd weddw a thri o blant a lluaws o gyfeillion i alaru ar ei ol. Yr oedd yn ddyn hynod o gywir ac o'r diad difrycheulyd. Ystyrid ef gan bawb yn y gymydogaeth yn ddyn teilwng o barch, er nad edrychai llawer ar ei olygiadau crefyddol ddim yn amgen na chyfeiliornad niweidiol; er hyny dangosodd rym a chywirdeb ei flydd trwy ei weithredoedd, ac ni chelai mo honi er mwyn boddio dynion nac er mwyn elw bydol. Gwnaethpwyd llawer ymdrech gan y Trindodwyr i'w ddarbwyllo i adael

y "Sosiniaid," fel y dewisent alw yr Undodiaid; mewn ffordd o ddiystyrwch. Ymosodwyd arno hyd yn nod yn ei afiechyd, ond meddai ar sail rhy gadarn i'w farn i neb allan ei syflyd, a rhoddai reswm yn wastad am y gobaith oedd ynddo. Ni fu arno gywilydd i arddel Undodiaeth Grist'onogol, ac ni bu achos i Undodiaid gywilyddio ei arddel ynteu. Nid ei fywyd moesol yn unig sydd yn deilwng o'i gofnodi, ond hefyd ei ymdrech dros bob achos da. Cyfranai bob amser yn hael, yn ol ei sefyllfa, at bob achos crefyddol. Os y byddai rhyw un mewn afiechyd yn ei ardal, byddai efe yn sicr o fyned i edrych am dano gan nad i bwy enwad y perthynai. Teimlai yn awyddus iawn am fwy o ymdrech dros yr egwyddorion Undodaidd, yn enwedig yn ei gystydd olaf. Cafodd ysgrifenydd y llinellau hyn lawer o annogaeth dda ganddo y tro diweddaf y bu yn ymweled ag ef, ac yntau yn gallu siarad. Ei ddymuniad oedd fod rhagor o ymdrech i gael ei wneuthur yn nghapel Rhydygwin i roddi addysg yn yr egwyddorion Undodaidd i blant a dynion ieuanc. Teimlai yn ddwys dros lwyddiant y capel lle y bu yn aelod rheolaidd a defnyddiol, er pan yr adeiladwyd y capel, ac yn yr Ystrad cyn hyny. Cafodd cynulleidfa Rhydygwin golled fawr ar ei ol. Nid oedd ei le ef byth yn wag ar y Saboth, os y byddai ei iechyd yn caniatau iddo fod yn bresenol. Gellir dyweyd am dano, yr hyn a allodd wneyd o ddaioni efe a'i gwnaeth. Ar y dydd diweddaf o Fawrth daeth lluaws o gyfeillion, a llawer o honynt o bell, i'w hebrwng i'w fedd yn mynwent Ciliau. Cyn ymadael o'r ty, pregethodd y Parch. W Rees o Rhydygwin, oddiwrth Salm. xxiii., 4, yn ol dymuniad y marw. Ar ol Mr. Rees pregethodd y Parch. T Thomas o Bantydefaid, oddiwrth Matt. vii., 7—12. Yr oedd y marw wedi dewis y testyn hwn hefyd. Tad y weddw a'r amddifad fyddo yn amddiffynfa i'w weddw a'i blant.

Ar y 30ain o Fawrth, yn 54 mlwydd oed, Timothy Davies, un o aelodau mwyaf ffyddlon Capel Twynyrodyn, Merthyr. Claddwyd ef yn mynwent Hen-dy-Cwrdd y Cefn, a phregethodd y Parch. N. R. Williams yn hynod darawiadol ar yr achlysur. Perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai fel dyn geirwir ac o roddiad bucheddol. Meddai ar ddawn prydyddawl. Flynyddau yn ol cyhoeddodd lyfryn o ffrwyth ei awen, ac ymddangosodd darnau o'i waith o bryd i bryd yn yr YMOFYNYDD, i'r hwn yr oedd yn gyfaill disyfl ac yn ddosparthydd. Pan yr ysgrifenodd at y Golygydd ychydig o wythnosau yn ol y'nghylch ei gyfrifon arianol, achwynai fod ei iechyd yn bur ddrwg, ond ychydig feddyliasom fod ein hen gyfaill ffraeth a diniwed mor agos i ben ei daith ddaearol. Yn wir, nid oes dim sy yn fwy ansicr na'n hoedl. Yr oedd Timothy Davies, yn enedigol o blwyf Llanwnen, Sir Aberteifi, os nad ydym yn camsynied, ond treuliodd flynyddau lawer yn Merthyr.

Dydd Gwener, Ebrill 9ed, ar Garegydwfn, William Morris y Gof, o'r Trapgynt, ger Llandilo, yn 88 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn hen wr esmwyth a thawel, yn hynod felly am ei onestrwydd a'i ddidwylledd, a gair da iddo gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun. Yr oedd yn Undodwr selog a gwresog, a threuliodd o leiaf 45 mlynedd, gyda'r achos yn Llandyfân a'r Onenfawr, 30 o ba rai yn ddiacon parchus a ffyddlon, hyd oni orfodwyd ef i roddi'r swydd i fyny o herwydd methiant a llesgedd. Ni fu yn alluog i ddyfod i'r cwrdd er ys dwy flynedd neu ragor, er hyny darllenai yn gysson hyd oddi fewn i 'chydig i'w farwolaeth, pan y pallodd ei nerth. Ei unig obaith a'i sylfaen am fywyd tragwyddol, oedd yn iawn adnabyddiaeth o Iesu Grist, yn nghyd âg ymorphwysiad ar addewidion mawr a gwerthfawr ei Dad nefol. Bu farw fel y bu fyw, mewn heddwch â Duw a dynion. Pregethwyd ar yr achlysur galarus, yn y ty cyn codi'r corph, gan y Parch. D. L. Evans, yn dra effeithiol, oddiar Ioan xvii. 3.

Yn Rhif. Ebrill, tud. 88, ac yn llinell 26ain o'r gwaelod, yn lle "gwebydri," darllener "gwrhydri."

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," CAERFYRDDIN.

Rhydfendigaid mae sôn mawr a synied." Dywed yn y gân cyntaf :—

"Hi saif yn ei hunman, y bont ar ddau bentan,
Yn hynod ei hunan, a llydan er lli;
Tra Banc Pen y Banau yn dal uwch y dolau,
A ffrydiau mewn tonau'n myn'd tani."

Yn yr ail gân dywed:—

"Y tân fo'n myn'd trwyddi, a rhywun y fory
F'on peri pentyru pont arall."

Canodd Dafis, Castell Hywel, i'r ddwy groes gerddi fel yma :—

"Ti godaist in' unwaith bont gadarn deg odiaeth,
Gwir harddwch cywreinwaith y dalaith wan deg;
Nid Teifi all'sai 'i chyffro, er rhewi ac er rhuo,
Na siglo na gwyro un gareg.

"Ond d' awen fawr, lorwerth, a drodd y bont brydferth,
Wen, ddinam, yn ddinerth, hyll anferth ei llun!
Dy gerdd a bar ini ofn trysto fyn'd trosti,
Ac arni i bawb grynu bob gronyn."

Ni welsom ni ddim yn neillduol i achwyn ar y bont. Mae'r bont yn burion, ac yn atteb ei diben, ac yn debyg o wneyd hyny yn hir etto :—

"A llawer awff trwstan eiff trosti."

Cymmered y darllenydd hwe, tra tyddom yn rhoi ffrwyn rydd i'n nyfyrdodau—yn edrych ar y rhyd, a meddwl am y rhai a roisant eu henw i'r rhyd, ac am

"Y clych a'r menych a'r mwynion—foliant
Mynych ogoniant *Meneich gwynion*,"

ac am Bistyll Cwm Tawel :—

"Fe fu mynachod gynt, medd rhai,
A'th ddwfr di yn golchi bai,
Gan gyfrif it' sancteiddiol rin."

YSGOLION SUL.

Y MAE llawer wedi ei ysgrifenu o bryd i bryd ar Ysgolion Sul a'u cardd iad. Yn y cyffredin ystyrir mai Robert Raikes, o Gloucester, roddodd iddechreuad iddynt. Cyhoeddwyd yn ddiweddar erthygl yn y *Churchman's Shilling Magazine* yn gosod allan hawlau Stock a Raikes i'r anrhydedd o fod yn gychwynwyr iddynt. Deallwn oddiwrth y *Unitarian Herald* (Sept 11, 1868), fod rhyw *orthodox contemporary* yn ddiweddar wedi priodoli'r anrhydedd yma i Theophilus Lindsey. Sefydlodd Mr. Lindsey ei ysgol yn 1764, yr oedd hyny cyn iddo drosi o fod yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig i fod yn weinidog ym mysg yr Undodiaid.* Tua'r flwyddyn 1841 ysgrifenodd un Mr Clarke, o Birmingham, lawer awn ar darddiad yr Ysgolion Sul. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am y daflen ganlynol :—

---

* Y mae hanes bywyd Lindsey wedi ymddangos yn YR YMOFYNYDD.

SEFYDLIAD YSGOLION SUL.

	YM MHA LE.	GAN BWY.	PA BRYD.
I.	Catterick, yn Yorkshire	Parch. T. Lindsey	1764
II.	Bedale „	Miss Harrison (wedi hyny Mrs. Cappe)	—
III.	High Wycombe, Bucks	Miss Hannah Ball	1769
IV.	Little Lever, Bolton, Lancashire	Mr. James Keys	1775
V.	Ashbury, Farringdon, Berks.	Parch. Thomas Stock	1777
VI.	Macclesfield, Cheshire.....	Parch. D. Simpson, M.A.....	1778
VII.	Dursley, Gloucestershire.....	Mr. W. King	—
VIII.	St. John's, Gloucestershire..	Stock a Raikes..	1780
IX.	St. Mary de Crypt, Gloucestershire	Robert Raikes	1781

Anrhydedd i'r hwn y mae anrhydedd yn ddyledus. Fe welir oddi wrth yr uchod mai nid i Raikes y perthyn yr anrhydedd o fod y cyntaf i gychwyn Ysgolion Sul, er ei fod o bossibl wedi gwneuthur mwy na neb arall i'w gwneuthur yn boblogaidd. I bwy ynte y perthyn yr anrhydedd hwn? A'i tebyg y buasai y fath feddylddrych cyhyd cyn dyfod i weithrediad? Angen yw mam dyfais, a thebyg yw fod llawer oes wedi gweled yr angen ac wedi dyfeisio'r moddion i'w ddiwallu a'r enwau cyssylltiedig a hwy wedi myned i dir anghof. Fodd bynag, bydd yn rhaid i'w cyfeillion Seisnig wneuthur ymchwiliadau pellach, neu nid erys yr anrhydedd hwn gyd â hwy. Yn Rees's *Nonconformity in Wales* cawn fod dwy Ysgol Sul yng Nghymru yn y ganrif cyn geni Lindsey; un o honynt yn Nghastellnedd, a'r llall yn Ty'r Dwncyn, a hyny yn 1697. Agorodd Dr. Ed. Williams, o Groesoswallt, amryw yn y Gogledd yn 1736, ond y mae'n bossibl mai i Charles, o'r Bala, y perthyn yr anrhydedd o wneuthur yr Ysgolion Sul yn boblogaidd ac yn beiriant o nerth yng Nghymru, yn 1788, a'r blynyddau canlynol.

R. J. J.

Barddoniaeth.

DAU ENGLYN I "WRAIG Y MEDDWYN.

(Buddugol yn Nghyfarfod Llenyddol Brynfferws, Llanedi, Tachwedd 23, 1867.)

Cihodd hedd gwraig y meddwyn,—os oedd tôn,
Llaesodd tanau 'i thelyn;
Ei gwaith, yw hirfaith erfyn,
Fenyw deg! ac ofni ei dyn!

Ysig fywyd, o dàn wasgfeion,—lwydodd
Holl flodeu 'i chysuron;
Yn nghanol prudd angenion,
Ei delw hardd, wnaeth adael hon.

Sobr (sef "Gwalch Ebrill," Brynamman).

Bedd-argraff i'r diweddar EVAN EVANS, Ysw., Maesymynach, Llanfihangel Ystrad, Ceredigion, yr hwn sydd yn gorwedd ym mynwent Capel-y-Groes.

Y gwr uniawn, hygar anwyl—eilw Nâf
Hynawsaf o'i noswyl,
A brysia fyn'd i'w breswyl,
Gydag Ef i gadw gwyl.

Tregaron. IOAN MYNYW.

Bedd-argraff i'r diweddar Barchedig REES DAVIES, gweinidog Capel-y-Groes.

Bu'n Athraw heb un eithriad,—galwai bawb
Mewn goleubwyll gariad;
Hardd ydoedd ei gerddediad,
Fel y doeth, rho'i fawl i'w Dad.

Trecefel. AMNON II.

CWMWL.

Cwmwl, nifwl yn nofiaw,—ar hwylus
Awelon, ac ynddaw
Fôr o les, difera wlaw
Yn ei daith i'n bendithiaw.

Llundain. D. DAVIES.

TRI PHENNILL IR "GWLITH."

Y gwlith,
Cenadon nefol yn ein plith,
Sy'n hau bendithion pur dilyth,
Yn foreu bach, hwy dd'ont i lawr,
Yn llu o law'r anfeidrol Dad,
O'i gariad, a'i ddaioni mawr.

Yn wir,
Mae dagrau'r nos, fel perlau pur,
Yn ymdaenedig dros y tir;
Eneinio wnant y lili hardd,
Adloni'r meillion ar y ddôl,
A swynol wên, y blodeu chwardd.

Tir crâs,
A wnant i ni fel doldir bras,
A nôd yn yr eginyn glas;
Ond pelydr haul a'u geilw bant,
Ar ol cyflawni 'i fwriad Ef,
Ac yna 'nol i'r nef yr ant.

Llandybie. RHYDDERCH.

CWYN Y WEDDW.

Sef gweddw Mr. Howell Evans, Ton Coch, ger Aberdâr, yr hwn fu yn aelod ffyddlawn yn Nghapel Abernant-y-Groes, ac a fu farw yn sydyn Tachwedd 28ain, 1867.

Tôn,—"Toriad y Dydd."

O angau! ti wyt greulon,
  Archollaist fi a'th gledd,
Tarewaist un, 'r hwn fel fy hun,
  A garaf hyd fy medd.
Paham na roddaist imi,
  Un awgrym o dy frad;
Ond yn ddifoes, terfynaist oes,
  Fy anwyl briod mad
Am Howell anwyl wylaf
  Tra byddaf mwy is nen,
Dan arw groes a miniog loes
  A f' einioes frau i ben.
Nid oes i mi ond galar,
  Oer garchar yw y byd,
Er gwenau'r dydd, trwm guddug rydd
  O f' amgylch i o hyd.

Mi gollais ffyddlawn gydmar,
  Un hawddgar ilwyr ddifrad;
A thrwyddo daw o lawer llaw
  Hael roddion er llesâd;
Caf gydymdeimlad canoedd,
  O'm cymydogion mwyn;
Er hyn i gyd, ni fedd y byd
  Fel ef i wrandaw'm cwyn.
Ei gynnar dda gynghorion,
  Drwy droion dyrys daith,
Cyd-deimlad dwys, gan ddwyn y pwys,
  A'r gwaethaf rhan o'r gwaith;
Ni chaf er fy nghyfyngder
  A llymder croesau'r llawr,
I'm cymhorth mwy i fyned trwy
  Hir nos hyd doriad gwawr.

Ond da fo'i im' dawelu,
  A chredu yn fy Nhad,
Nad oes a ddaw, ond da o'i law,
  Yr holl er ein llesâd.
Gosodwyd i ddyn farw
  A'i fwrw i'r fan y bu;
Ond daw y dydd, cawn dd'od yn rhydd,
  Yn dorf o'n carchar du.
Pryd hwnw gwelaf eilwaith
  Y gwyneb gwridog llon,
Sydd 'nawr mewn bedd, yn wael ei wedd,
  Daw fry yn iach ei fron,
O'r llwch yn anllygredig,
  Gwynfydig fydd ei fraint,
Y 'ngwydd yr Oen a fu dan boen
  Mewn cydgan gyda'r Saint.

Cwmbach. Un o'i Gyfeillion.

ANNOGAETH I GYRCHU I'R YSGOL SUL.

I'r Ysgol Sul ymgyrchwn
  Yn llu banerog llon,
Cawn ynddi well trysorau
  Na fedd y ddaear hon,
Y teilwng hyfforddiadau
  Gan ei hathrawon mâd,
I ddilyn camrau'r Iesu
  I fewn i'r Ganaan wlad.

I'r Ysgol Sul ymgyrchwn,
  Na fyddwn mwy yn ddall;
I chwilio'r Ysgrythyrau,
  Fel gweision mwyn a chall;
Bydd hyn yn fendith ini,
  Cawn wel'd rhyw ddydd a ddaw,
Pan bydd y Barnwr cyfiawn
  'Nei'n talu'r ochr draw.

I'r Ysgol Sul ymgyrchwn
  A de'wn i faes y gâd,
Er taenu egwyddorion
  Crist Iesu drwy y wlad;
A'n harwain ni, rai deillion,
  I deithio'r llwybr cul.
O byddwn weision ffyddlon
  O blaid yr Ysgol Sul.

Am hyny cyrchwn iddi,
  O bob rhyw lwyth ac iaith,
'Mofynwn am ddedwyddwch
  Tra fyddom ar ein taith—
'N awyddus am gael gwybod
  Pa fodd rhaid i ni fyw,
Er bod yn gymeradwy
  Ger bron y cyfiawn Dduw.

Trebanos. H. MORGAN.

GAIR AM Y LECSIWN.

At Olygydd yr YMOFYNYDD.

LECSIWN, Lecsiwn yw dwndwr yr holl wlad yn bresenol, a gyda'ch caniatad, Mr. Golygydd, mi a ddywedaf inau air bach byr cwtta yng nghylch un peth mewn cysylltiad â'r Lecsiwn; hyny yw, yng nghylch y cyfarfodydd Rhyddfrydig sydd yn cael eu cynal o un cwr o'r wlad i'r cwr arall. Y mae dyben y fath gyfarfodydd yn dda i'r pen, ond y cwestiwn yw, a yw yr amcan penododig yn cael ei gyrhaedd gan bob un o honynt? Ofnaf nad yw. Y dyben yw, wrth gwrs, ceisio goleuo ychydig ar yr anwybodus sydd yn ein gwlad, a mawr yw nifer y cyfryw.

Y mae'n druenus meddwl fod, yn ddiammheuaeth, un o bob tri yn Ngheredigion, i raddau helaeth, yn anwybodus o'r gwahaniaeth rhwng *Tory* a *Whig*, neu rhwng Ceidwadwr a Rhyddfrydwr, eto yn y cyfarfodydd hyn nid oes neb yn anturio egluro pethau mor syml. Y maent yn hofran uwchben pethau llai pwysig o lawer. Y rhai sydd yn cymeryd y rhan fwyaf egniol ynddynt yw "*y gwyr a'r cadau gwynion*," ac y mae yn beth priodol a chymwys iawn iddynt wneyd, ond nid ydynt, yn ol fy marn i, yn siarad yn ddigon syml a dealladwy i'r werin. Am oreu'r araeth yw hi fynychaf gan y "*Reverends*" yma, ac felly maent yn cyfansoddi rhai o eiriau mawrion, hir-wyntog; canys y mae ambell un o honynt yn meddwl mai yn hyn-hyny gorphwysa wir ardderchowgrwydd araeth; ond y maent yn camsynied o hirbell. Areithio fel pe byddent yn cyfeillachu â'r bobl a ddylent. Nid ryw reffyn o eiriau di-synwyr sydd eisiau ar amser mor brysur ag yw hi yn bresenol; ond ychydig, a'r rhai hyny yn eglurhad syml a dealladwy i'r bobl, ac nid rhyw gruglwyth o areithiau na wnânt y gwrandawyr un mymrym callach na phan y daethant i'r cyfarfod. Gobeithio na fydd neb yn Ngheredigion eleni, fel y tro o'r blaen, dranoeth y Lecsiwn, yn dyweyd nad oeddynt hwy yn gwybod fod un gwahaniaeth gyda phwy y rhoisent eu pleidlais! Fe ddylai'r cyfarfodydd yma wneyd fyny y bwlch yna, ond y mae yn rhaid iddynt wella, neu, Mr. Golygydd, fel yr oedd hi o'r blaen y bydd hi eleni eto.

Y mae rhai yn barod i ddyweyd, efallai, mai Tory sydd yn ysgrifenu y pwt hyn o lythyr, ond gallaf sicrhau y cyfryw mai Whig "*hyd asgwrn fy nghefn wyf*" (fel y mae'r areithwyr yn arfer dyweyd), ac sydd yn teimlo yn ddwys na fuasai'r cyfarfodydd yma yn gwneyd eu hunain yn dipyn mwy manteisiol a dealladwy i gloddwyr gwlad y bryniau. A ganiatewch, chwi areithwyr etholiadol, imi roddi un cynghor i chwi? Os ydych am lesäu y wlad trwy y cyfarfodydd hyn, byddwch yn dyn wrth eich testyn, a rhoddwch ar ddeall i'ch gwrandawyr y pwys a'r dyledswydd o bleidleisio yn iawn.

Ydwyf, Mr. Golygydd,

Yr eiddoch,

LLAWDDOG.

Yr ydym yn hollol o'r un farn a "Llawddog" ar y pen hwn. Ni fu gwell cyfleusdra erioed nac sydd yn awr i oleuo y bobl yn nghylch eu breiniau gwladol. Y maent yn awyddus am wybodaeth. Buom yn Sir Aberteifi ychydig ddiwrnodau yn ol, lle mae, ar hyn o bryd, yr awyr boliticaidd yn lled dwym. Yno cyfarfuom a dau neu dri o ffermwyr cyfrifol, a ddywedasant wrthym "Ni waeth i ni lawer p'un a'i dros y 'Blues' neu y 'Reds' y *fotom;* yr un peth fydd hi arnom ni." Dywedodd un arall wrthym "Gyda Meistr y *fotwn* ni, ta ffordd y bydd hyny"!! Dyma lle mae eisiau goleuni, ac fe ddichon gydwybod hefyd. Yr oedd y gair "Meistr," hefyd, am berchen eu ffermydd yn swnio yn rhyfedd i'n clystiau ni. Meddyliem mae iaith y caethwas ydoedd, ac nid iaith ffermwr ag oedd yn gorfod talu am ei fferm, ac efallai talu yn ddryd. Ni chlywir ffermwyr yn Lloegr yn un man yn galw "Meistr" ar berchen eu ffermydd. Onid oes rhyw beth sydd yn swnio yn gaethwasaidd yn y gair?

Dangosed yr areithwyr etholiadol i'r bobl mai "Reds" yw y rhai sydd yn trethu y wlad i'r eithaf, ac yn gwneyd i'r bobl weithgar dalu y trethi. Y "Reds" sydd wedi gosod yn awr dair miliwn a haner o drethi ar y wlad yn rhagor nac oedd, a hyny mewn mor lleied o amser a deunaw mis! "Blues" yw y rhai sydd yn ysgafnhau y trethi, ac am i'r tylawd a'r cyfoethog dalu trethi yn ol eu meddianau, yn lle gosod y baich trymaf ar gefn y bobl. Dangosed yr areithwyr etholiadol i'r bobl mai "Reds" yw y rhai sydd am gynal i fynu gyfreithiau ysgafn i'r cyfoethogion, a gosod rhai trwm ar y tylawd. Bydded iddynt egluro i'r bobl mai "Reds" sydd yn cynal i fynu grefydd sefydledig yn y wlad, ac yn rhoddi mwy na deuddeg miliwn o bunau bob blwyddyn o arian y wlad i weinidogion yr Esgobwyr, y rhai nid oes ganddynt fwy o hawl i'r swm afrifed hyn nac sydd gan weinidogion enwadau eraill. Y "Blues" sydd am ryddhau'r wlad o'r caethiwed a'r anghyfiawnder hyn, a throi'r arian at ryw ddefnydd fyddo yn well i'r genedl. Y "Reds" sydd yn caead drysau Cambridge a Rhydychain yn erbyn yr Anghydffurfwyr. Y "Blues" sydd am eu hagor. Y "Reds" fu yn carcharu, yn ffeino, ac yn erlid ein teidau am beido myned i'r Eglwys Sefydledig i addoli. Y "Blues" roddodd i ni ryddid crefyddol. Y "Reds" oedd yn cynal i fynu y dreth eglwys, ac yn dyweyd mai peth iawn oedd gwerthu moddion a biblau y sawl a wrthodent yn gydwybodol ei thalu, ac a daflent eraill i garchar, gan ddistrywio eu bywoliaeth a llwmhau eu teuluoedd. Y "Blues" sydd wedi gosod diwedd ar y gwradwydd hwn. Y "Blues" symudodd yr Act gywilyddus hono, a berai i bawb a fynai fyned yn *Excisemen*, neu ddal rhyw swydd mewn bwrdeisdref, yn gyntaf i gymmeryd y cymmun yn yr Eglwys Sefydledig!! Y "Reds" wnaeth yr Act hono. Y "Reds" wnaeth gyfreithiau'r yd ag oedd yn starfo'r gweiniaid, ac yn llymhau'r ffermwyr. Y "Blues" symudodd y gyfraith orthrymus hono, ac a fuont yn foddion i gael *free trade*. I'r "Blues" yr ydym yn ddyledus am y Reform Bill yn 1832. Y "Reds" wrthwynebasant y Bill hwnw hyd byth y gallent. Trwy ymdrech diffuant y "Blues" y cawsom Reform Bill y flwyddyn ddiweddaf. Darfu i'r "Reds" ei wrthwynebu fraich ac ysgwydd fel y gwnaethant yr un o'i flaen, nes o'r diwedd y gwelsant fod yn rhaid *gildo*; yna wedi iddynt fyned i bwer, buont mor ddigwilydd a diegwyddor a phasio trwy'r Senedd yr hyn ag oeddynt o'r blaen wedi wrthwynebu, meddent hwy, o gydwybod! Yn awr maent mor haerllug a dyweyd mai iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am y Bill! Celwydd noeth. Y "Reds" sydd yn awr yn gosod y "screw" ar eu deiliaid, ac yn danfon eu agents oddiamgylch i'r tai ffermydd i frawychu dynion, a'u bwgwth os na *fotânt* gyda perchenogion y tiroedd. Y "Reds" sydd yn awr yn ddiwyd i ddyfeisio celwyddau ar y *Liberal Candidates*, er mwyn perswadio ffyliaid i beidio *foto* drostynt. Dyma beth o'r gwahaniaeth sydd rhwng y "Reds" a'r "Blues," ond nid y ddegfed ran allem ddyweyd pe byddai amser a lle genym. Mewn gair, ymdrech y "Reds" yw gorthrymu y wlad a gosod beichiau trymion ar ysgwyddau dynion. O'r tu arall, ymdrech y "Blues" sydd wedi bod yn wastad dros ryddid gwladol a chrefyddol, ac i ysgafnhau trethi y wlad. Eglured yr areithwyr y pethau hyn i'r bobl mewn iaith eglur a symyl, a hwy a wnânt les mawr i'r wlad. Llawer hwy adeiladol fyddai hyn na swn geiriau dyfnion a brawddegau per-seiniol a hir-wyntog.

Fel y mae y planedau bach yn nesaf at yr haul, felly y mae plant bach yn nesaf at Dduw.

Nid ydyw zêl heb wybodaeth ond gwallgof crefyddol. Crefydd ydyw wedi ei brawychu o'i chôf.

Peth ofnadwy yw haeddu llawer o wialenodau; ond trugaredd yw eu cael pan fyddo eisiau.

Pwy bynag sydd am fwynhau heddwch Crist, bydded iddo yn gyntaf geisio ysbryd Crist.

Gwnewch gymmaint o ddaioni ag a alloch, a chadwch mor lleied swn o'i blegid ag a fyddo'n bosibl.

Os y cuddiwn ein talent yn y ddaear, ni gollwn ein trysor yn y nefoedd.

Ni ddylai Cristion byth feddwl nad oes ganddo ddim gwaith.

Ychydig bach o gyfeiliornad wrth annelu y saeth, wna gyfeiliornad mawr wrth y nôd; felly cyfeiliornad bychan mewn amgyffred gwirionedd, wna gyfeiliornad mawr yn ymarferiad duwioldeb.

I roddi dyscleirdeb i'r llygaid, cauwch hwynt yn gynnar ac agorwch hwynt yn foreu, a bydded fod y meddwl yn wastadol â'i holl fryd ar gael teimladau caredig. Ni fetha hyn byth roddi edrychiad cyfeillgar a charedig i'r llygad.

Marwolaethau.

Awst 22, yn nhy ei mab, *Full Moon*, Harriet-street, Aberdâr, Mrs. Elizabeth Jones, yn 89 oed. Pregethwyd yn yr Hen-dy-Cwrdd gan y gweinidog. Claddwyd hi yn y Cemetery ar 25ain.

Awst 30, yn ddwy flwydd a hanner oed, Edward, mab Llewelyn a Mary Llewelyn, yn awr o Union-street, Trecynon, Aberdâr. Prin tair wythnos oedd er pan ddychwelodd y teulu—yr oedd wyth o blant—o Awstralia, a diau bod y tad a'r fam yn teimlo yn llawen a diolchgar eu bod wedi eu glanio yn ddiogel yn hen wlad eu genedigaeth, ar ol 15 mlynedd o absennoldeb; ond buan y gwelsant, er eu galar, nad oedd eu teulu i barhau'n gyfan yn hir, fod yn rhaid iddynt golli un o'u rhai anwyl. Y Tad a'i rhoddodd—etto yn Dad—a'i cymmerodd atto ei hun. Ystyriaeth o hyn fydd i chwi yn ddiddanwch ac yn gysur.

"This lovely bud, so young, so fair, called home by early doom,
Just came to shew how sweet a flower, in Paradise would bloom."

Medi 1, Mary, merch Mr. a Mrs. Williams, Cwmcoch, Aberdâr, yn naw wythnos oed.

"Ni ddaeth y teg flodeuyn hyn, a ga'dd mor syn ei symud,
Ond prin i ddangos pa mor hardd, yw blodeu Gardd y Bywyd."

Medi 14, Jenkin Owen, anwyl faban David ac Elizabeth Owen, *Star and Garter*, Trecynon, Aberdâr, yn ddeng mis oed. Aeth Mr. Jones trwy y gwasanaeth angladdol yn yr Hen-dy-Cwrdd ar yr 16eg, a chladdwyd yn y Cemetery.

"Rhag drygau a gofidiau gant,
Aeth Angeu i bant a Jenkin,
Cyn agor braidd o'r blodyn hardd,
I'w blannu yng ngardd y Brenin."

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," CAERFYRDDIN.